Achub y Plant
Save the Children

Plant mewn tlodi difrifol yng Nghymru:agenda ar gyfer gweithredu

Adroddiad terfynol astudiaeth a noddwyd gan Gronfa Syniadau Newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cyflawnwyd gan Achub y Plant a Sefydliad Bevan gyda'r Sefydliad Polisi Newydd ac Ymgynghorwyr Focus

Arweinwyr y prosiect oedd Anne Crowley a Victoria Winckler

Chwefror 2008

Gwir fesur o anrhydedd cenedl yw sut mae'n trin ei phlant: eu hiechyd a'u diogelwch, eu sicrwydd materol, eu haddysg a'u cymdeithasoli, a'u hymdeimlad o gael eu caru, eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn y teuluoedd a'r cymdeithasau y'u ganwyd iddynt.[1]

Mae Achub y Plant yn ymladd dros blant yn y DU ac ym mhob cwr o'r byd sy'n dioddef tlodi, afiechyd, anghyfiawnder a thrais. Yr ydym yn gweithio gyda nhw i ganfod atebion gydol oes i'r problemau maen nhw'n wynebu.

Mae Achub y Plant yn y DU yn aelod o Gynghrair Ryngwladol Achub y Plant, mudiadau hawliau plant annibynnol mwyaf blaenllaw y byd, gydag aelodau mewn 27 o wledydd a rhaglenni gweithredol mewn dros 100 o wledydd.

Sefydliad Bevan yw melin drafod cyfiawnder cymdeithasol Cymru. Mae'n datblygu ac yn hyrwyddo syniadau newydd i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais, drwy ymchwil, cyhoeddi adroddiadau ac erthyglau, a threfnu cynadleddau a seminarau. Mae'n elusen gofrestredig sydd yn cael ei hariannu drwy aelodaeth, grantiau a rhoddion. Mae aelodaeth yn agored i bob unigolyn a mudiad sydd â diddordeb yng ngwaith y Sefydliad.

Am ragor o wybodaeth am weithgareddau Sefydliad Bevan ac ar sut i ymuno, cysylltwch â ni ar y wefan: www.bevanfoundation.org

Cyhoeddwyd gan Raglen Cymru Achub y Plant

2il Lawr, Tŷ Phoenix
8 Heol y Gadeirlan
Caerdydd, CF11 9LJ
Rhif ffôn: 029 2039 6838
Ebost: Walesinfo@savethechildren.org.uk
www.achubyplant.org.uk
Cyhoeddwyd gyntaf 2008
© Cronfa Achub y Plant 2008
Rhif Cofrestru'r Cwmni 178159

Mae'r cyhoeddiad hwn dan hawlfraint, ond gellir ei atgynhyrchu trwy unrhyw ddull, heb ffî na chaniatâd ymlaen llaw at ddibenion addysgu, ond nid i'w ailwerthu. Er mwyn ei gopïo dan unrhyw amgylchiadau eraill, rhaid cael caniatâd ymlaen llawn gan y cyhoeddwr, ac mae'n bosib y codid ffî.

[1] UNICEF, Canolfan Ymchwil Innocenti (2007) *Report Card 7: An Overview of child well-being in Rich Countries* Fflorens, www.unicef.org/irc

Cynnwys

Crynodeb gweithredol **4**

1. Rhagarweiniad **9**

2. Diffiniadau a mesuriadau **11**

3. Tlodi plant difrifol yng Nghymru **16**

4. Polisïau cyfredol **24**

5. Agweddau addawol **26**

5.1 Egwyddorion cyffredinol

5.2 Gwneud y mwyaf o incwm aelwyd

5.3 Llwybrau at gyflogaeth

5.4 Addysg i weddnewid cyfleoedd bywyd

5.5 Gwneud i wasanaethau cyhoeddus gyflawni ar ran teuluoedd sy'n wynebu anfantais lluosog

6. Casgliadau **43**

Atodiad 1 Statws Tlodi Plant Difrifol y DU yn ôl nodweddion teuluol - crynodeb **45**

Atodiad 2 Y berthynas rhwng budd-daliadau, incwm aelwyd a thlodi plant **46**

Crynodeb gweithredol

Rhagarweiniad

Mae un o bob pedwar plentyn yng Nghymru a thrwy'r DU yn byw mewn aelwydydd lle mae'r incwm yn is na'r terfyn tlodi y cytunir yn gyffredinol arno, sef 60 y cant o'r canolrif incwm. Mae un o bob deg plentyn yng Nghymru yn byw mewn tlodi plant difrifol, lle mae incwm yr aelwyd dan 50 y cant o'r canolrif incwm, sy'n golygu bod plant ac oedolion yn yr aelwyd yn brin o hanfodion, oherwydd na allant eu fforddio. Mae tlodi plant yn difetha bywydau miloedd o blant yng Nghymru, gan effeithio ar eu haddysg, eu hiechyd, eu cyflogaeth i'r dyfodol a'u cyfleoedd mewn bywyd.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi casgliadau allweddol prosiect gan Achub y Plant a Sefydliad Bevan a archwiliodd amgylchiadau plant sy'n byw yn y tlodi mwyaf difrifol yng Nghymru; mae'n adolygu agweddau effeithiol tuag at fynd i'r afael â'r rhwystrau penodol y mae'r teuluoedd hyn yn eu hwynebu, gan awgrymu nifer o agweddau allweddol wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y prosiect yn cynnwys dadansoddiad eilaidd o ddata o'r *Arolwg Adnoddau Teulu*, adolygiad llenyddiaeth helaeth a seminar bwrdd-crwn gydag arbenigwyr yn y maes (o Gymru a ledled y DU). Cafodd y prosiect gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chafwyd cyfraniadau gwerthfawr gan y Sefydliad Polisi Newydd ac Ymgynghorwyr Focus yn ogystal â chan Sefydliad Bevan ac Achub y Plant.

Cyd-destun Polisi

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dangos ei hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant trwy gyfrwng strategaeth tlodi plant (2005), cynllun gweithredu (2006) ac yn fwy diweddar, gynigion ychwanegol yn y rhaglen lywodraethu *Cymru'n Un.* Er i dlodi plant leihau'n gynt yng Nghymru nag yn unrhyw ran arall o'r DU yn hanner cyntaf y degawd hwn, mae cynnydd wedi arafu ers hynny, ac mae'n bryd edrych o'r newydd, a hynny mewn ffordd radical, ar bolisïau a buddsoddiadau cyfredol, ar lefel Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU, ac ail-ganfod y momentwm a gollwyd.

Mae arbenigwyr wedi honni bod angen i Lywodraeth y DU fuddsoddi £4 biliwn y flwyddyn yn ychwanegol os yw i gwrdd â'i tharged o haneru tlodi plant erbyn 2010 ac, wrth i drosglwyddiadau incwm barhau'n allweddol, mae angen mesurau eraill sydd o fewn cylch gorchwyl Llywodraeth Cynulliad Cymru os yw tlodi plant i'w ddileu yng Nghymru. Ein dadl ni yw os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru i gwrdd â'i thargedau uchelgeisiol ond tra derbyniol o haneru tlodi plant erbyn 2010 a'i ddileu yn llwyr erbyn 2020 yna rhaid iddi ddatblygu polisïau penodol i fynd i'r afael â'r materion arbennig y mae'r plant a'r teuluoedd hynny sy'n byw yn y tlodi mwyaf difrifol a mynych yn eu hwynebu.

Tlodi plant difrifol yng Nghymru

Aeth y Sefydliad Polisi Newydd ati i ddadansoddi data sydd eisoes ar gael er mwyn archwilio amgylchiadau plant sy'n byw mewn tlodi difrifol yng Nghymru. Yn anffodus,

roedd maint sampl Cymru yn yr *Arolwg Adnoddau Teulu* yn rhy fach i alluogi iddynt greu dadansoddiad o dlodi plant difrifol yng Nghymru yn unig. Ategwyd ein dadansoddiad felly gan ganfyddiadau astudiaeth ledled y DU a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Achub y Plant. Nodir canfyddiadau allweddol ein hymchwiliadau isod.

Argymhelliad pwysig i Lywodraeth Cynulliad Cymru o'r prosiect hwn yw ariannu chwyddo maint sampl Cymru yn yr *Arolwg Adnoddau Teulu* i alluogi dadansoddiad mwy manwl o'r data am dlodi plant difrifol yng Nghymru er mwyn gwneud penderfyniadau polisi cadarnach eu seiliau.

Canfyddiadau Allweddol

- Yr ydym yn amcangyfrif bod oddeutu 13 y cant o holl blant Cymru yn byw mewn tlodi difrifol (90,000 o blant). Mae gan ganran uwch (19%) incwm aelwyd sy'n llai na 50 y cant o'r canolrif incwm, ond nid ydynt heb hanfodion sylfaenol.

- Ceir cysylltiad cryf rhwng tlodi plant difrifol a byw mewn aelwyd lle nad oes yr un oedolyn yn gweithio. Mae bod heb waith wrth wraidd dau draean o'r tlodi plant difrifol.

- Nid yw byw mewn aelwyd lle mae un neu ragor o oedolion yn gweithio yn gwarantu osgoi tlodi difrifol. Fodd bynnag, po fwyaf o waith a wneir mewn aelwyd, po leiaf y tebygrwydd o dlodi plant difrifol.

- Ceir cysylltiad cryf rhwng tlodi plant difrifol a chael o leiaf un rhiant ag anabledd; mae gan draean y plant sy'n byw mewn tlodi difrifol riant anabl.

- Ceir cysylltiad cryf rhwng tlodi plant difrifol a byw mewn aelwyd gydag unig riant (gan mwyaf, oherwydd bod unig rieni'n llai tebygol o fod â gwaith cyflogedig nag aelwydydd lle ceir cyplau).

- Roedd ffactorau eraill a oedd yn gysylltiedig â thlodi plant difrifol yn cynnwys: byw mewn teulu mawr; byw mewn teulu Asiaidd/Asiaidd Brydeinig; byw mewn teulu lle nad oes gan y mamau unrhyw gymwysterau addysgol.

- Mae'r cysylltiadau rhwng nodweddion yr aelwyd a thlodi plant difrifol yn ddyrys, gyda nifer o'r ffactorau'n gorgyffwrdd, gan ei gwneud hi'n anodd iawn i deuluoedd o'r fath gefnu ar dlodi.

Agweddau Addawol

Mae'r agweddau addawol a ganfu ein hadolygiad llenyddiaeth helaeth, ac a ddatblygwyd mewn trafodaethau gydag arbenigwyr yn y meysydd perthynol, yn rhannu'n bedwar categori:

- Gwneud y mwyaf o incwm: strategaethau i gynyddu incwm teuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau a'r rheini sy'n gweithio.
- Llwybrau at gyflogaeth: gwella mynediad at waith cyflogedig (i'r rheini sy'n gallu).

- Addysg i weddnewid cyfleoedd bywyd: gwella dysgu a sgiliau fel llwybr allweddol allan o dlodi.
- Gwneud i wasanaethau cyhoeddus gyflawni ar ran teuluoedd sy'n wynebu anfantais lluosog: y rheini sydd anghenus a'r rhai sydd anoddaf eu cyrraedd.

Cyn ystyried y prif bwyntiau ym mhob un o'r categorïau hyn, mae nifer o themâu cyffredin i'w hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwella cydlynu polisi a gweithredu rhwng Whitehall a Chaerdydd; ar draws holl swyddogaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru; a rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a llywodraeth leol.
- Targedu adnoddau'n fwy effeithiol tuag at y rheini sydd fwyaf anghenus, gan gydbwyso hynny ag agweddau nad ydynt yn stigmateiddio.
- Gwella perfformiad ledled Cymru a lleihau'r 'loteri cod post' sy'n gweld safonau gwasanaeth yn amrywio'n aruthrol rhwng gwahanol awdurdodau lleol ac asiantaethau cyhoeddus.

Gwneud y mwyaf o incwm aelwyd

- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i godi ymwybyddiaeth ynghylch Credydau Treth Gwaith yng Nghymru a chefnogi teuluoedd i hawlio budd-daliadau/credydau sy'n ddyledus iddynt.

- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu i leihau baich dyledion trwy wneud gwasanaethau cyngor ariannol yn haws eu cyrraedd, a mynd i'r afael â benthyca anghyfreithlon.

- Rhaid gweinyddu budd-dal tai yn llawer mwy effeithiol yng Nghymru.

- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac asiantaethau eraill archwilio sut y gellid lliniaru'r baich ariannol y mae teuluoedd tlawd yn ei gario, gan gynnwys sicrhau bod addysg wirioneddol am ddim, rhoi prydau ysgol am ddim i bob plentyn, a dileu'r premiwm tlodi, e.e. ar gyfrifon banc a chyflenwadau trydan, a delir gan deuluoedd tlawd.

Llwybrau at gyflogaeth

- Dylai helpu rhieni i ganfod cyflogaeth gynaliadwy, sy'n gydnaws â'u swyddogaethau rhianta, fod wrth wraidd camau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru.

- Dylai rhaglenni'r Adran Gwaith a Phensiynau fod yn fwy ystyriol o deuluoedd ac yn fwy hyblyg, er mwyn bodloni'r gwahanol anghenion sydd gan rieni.

- Rhaid sicrhau gwelliant dramatig yn argaeledd, fforddiadwyedd a hyblygrwydd y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru. Yn benodol, gofal plant sy'n ddigon hyblyg i fodloni anghenion rhieni â phatrymau gwaith annodweddiadol; gofal plant y tu allan i oriau ysgol a gofal plant i blant ag anableddau.

Addysg i weddnewid cyfleoedd bywyd

- Mae gwella cyrhaeddiad addysgol plant yn allweddol o ran chwalu'r cylch tlodi yn y tymor canolig i hir. Er mwyn sicrhau hyn, dylai bod pwyslais llawer cryfach ar addysg a dysgu yn strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant.

- Mae pwyslais Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddysgu a chefnogi blynyddoedd cynnar i'w ganmol, ond mae angen gwneud mwy i gefnogi plant 4+ oed; i leihau'r bwlch cyrhaeddiad wrth i blant symud drwy'r ysgol gynradd ac uwchradd.

- Dylid rhoi cymhellion cadarnhaol i ysgolion i leihau anghydraddoldebau. Ond yn ogystal ag ysgolion, mae gan ystod o asiantaethau rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi addysg a dysgu plant o deuluoedd tlawd. Mae agwedd ddi-dor yn hollbwysig. Ceir sgôp arbennig ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol i ategu ac i ychwanegu at gyfraniad ysgolion; ac ar gyfer rhaglenni o addysg unigol a brofwyd yn ffordd effeithiol o godi lefelau cyrhaeddiad.

- Rhaid buddsoddi'n sylweddol mewn 'cau'r bwlch' rhwng plant o wahanol gefndiroedd; mae cyllid yn bwysig ond mae buddsoddi mewn rheolaeth a datblygiad proffesiynol yr un mor bwysig.

- Rhaid gweithredu ar fyrder i wella cefnogaeth adfer i blant sy'n tangyflawni ac i leihau datgysylltu o'r ysgol ym mlynyddoedd 7 – 10.

- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu rhaglenni i baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd gwaith; cefnogi'r pontio'n fwy effeithiol; a chodi dyheadau pobl ifanc.

- Dylai archwiliad manwl o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gynnydd plant yn yr ysgol ac mewn addysg, a pha agweddau a allai weithio yng Nghymru i wella cyrhaeddiad addysgol plant rhwng 4 - 18 oed o deuluoedd incwm-isel, fod yn destun prosiect Syniadau Newydd penodol i'r dyfodol, yn wyneb dyfnder ac ehangder ymchwiliad o'r fath.

Gwneud i wasanaethau cyhoeddus gyflawni

- Nid yw cymorth a chefnogaeth bob amser yn cyrraedd y teuluoedd sy'n wynebu amddifadedd lluosog. Mae ymgysylltu â theuluoedd 'anodd eu cyrraedd' o'r fath yn allweddol ac mae angen cefnogaeth ychwanegol i helpu'r teuluoedd hyn i gael llwybr at wasanaethau cyhoeddus y brif ffrwd.

- Mae'n debyg y bydd angen cymorth unigol, hyblyg dros gyfnod parhaus o amser ar y teuluoedd mwyaf anghenus. Dylid sefydlu timau aml-asiantaeth, yn y gymuned, i ddarparu gwasanaethau teulu integredig, heb unrhyw stigmateiddio.
- Dylid rhoi cymhellion i gyrff cyhoeddus 'gydlynu' eu gwasanaethau'n fwy effeithiol. Dylai camau gweithredu gynnwys adolygu trefniadau cyllido cyfredol

sy'n hwyluso'r agwedd 'silo' tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Y cynllun sengl newydd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n rhoi mecanwaith allweddol ar gyfer gwella gweithio ar y cyd.

- Dylai tlodi plant fod yn uchel ar restr blaenoriaethau'r Byrddau Gwasanaethau Lleol newydd.

- Mae gan ymwelwyr iechyd rôl allweddol i'w chwarae yn cefnogi plant a'u teuluoedd yn y blynyddoedd cyn-ysgol ac mae angen sicrhau bod eu rôl yn cael ei hadnoddu'n ddigonol. Pan fyddant yn cyrraedd ysgol, dylai'r cyfrifoldeb dros les plentyn gael ei drosglwyddo'n glir i berson enwebedig yn yr ysgol.

Casgliadau

Tlodi plant yw un o'r bygythiadau mwyaf i les pobl Cymru. Mae'r targedau o haneru tlodi plant yng Nghymru erbyn 2010 a dileu tlodi plant yn llwyr erbyn 2020 yn rhai uchelgeisiol, ond rhaid iddynt fod yn flaenoriaeth bwysig gan bob corff ac asiantaeth lywodraethol yng Nghymru. Os yw polisïau sy'n mynd i'r afael â thlodi plant i lwyddo, rhaid hefyd iddynt gael eu gweithredu ym mhob maes polisi, gyda mecanweithiau wedi eu sefydlu i gynnwys y plant, y bobl ifanc a'r rhieni perthnasol yn y gwaith o ddylunio, gweithredu a gwerthuso atebion polisi.

Mae Erthygl 4 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gosod dyletswydd ar lywodraethau i gyflawni hawliau plant 'i eithaf yr adnoddau sydd ar gael iddynt'. Os yw tlodi plant yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, rhaid iddi ddefnyddio mwy o'i hadnoddau mewnol hi ei hun yn y gwaith o benderfynu ynglŷn â'r ffordd orau o ddefnyddio ei dyraniad o £14 biliwn i ddileu tlodi plant yng Nghymru. Wrth i'r dyddiad targed ar gyfer haneru tlodi plant ddynesu, mae angen rhai ymrwymiadau beiddgar a radical os yw bywydau plant yn y tlodi mwyaf difrifol i gael eu gweddnewid. Ar hyn o bryd, mae llawer o bolisi cyhoeddus yn gweithredu yn y tywyllwch. Mae angen gwneud mwy o waith i ganfod yr ymyriadau mwyaf effeithiol, a'n casgliad terfynol felly yw y dylid sefydlu tîm arbenigol - Uned Polisi Tlodi Plant – o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'r Uned honno'n ymroddedig i ddatblygu polisi a strategaeth effeithiol yng nghyswllt tlodi plant.

1. Rhagarweiniad

'Gwarth cenedlaethol' oedd y geiriau a ddefnyddiodd Comisiynydd Plant cyntaf y DU i ddisgrifio tlodi plant yng Nghymru yn ei adroddiad blynyddol cyntaf[2]. A dyna ydyw. Mae tlodi plant yn creithio bywydau llawer gormod o blant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru. Mae'n cyfyngu ar eu cyfleoedd bywyd i'r dyfodol o ran cyflogaeth; hyfforddiant; cyd-berthnasau teuluol a chymdeithasol cadarnhaol a pharhaol; hirhoedledd, iechyd corfforol a meddyliol cadarn, ac mae'n cael effaith ddofn iawn ar eu plentyndod[3].

Mewn ymchwil a gyflawnwyd yn ddiweddar ar ran Achub y Plant gyda 1,500 o deuluoedd a oedd yn byw ar incwm isel ledled y DU, dywedodd 8 o bob 10 rhiant bod eu plant yn cael eu hamddifadu o weithgareddau megis clybiau ar ôl ysgol, tripiau ysgol a gwahodd ffrindiau am de[4]. Roedd trafferth cael dau ben llinyn ynghyd yn golygu nad oedd gan blant yn o leiaf chwarter yr aelwydydd hyn gotiau cynnes yn y gaeaf, prydau bwyd digonol na gwres yn y cartref. Tlodi yw'r bygythiad unigol mwyaf i les plant yng Nghymru. Yn aml iawn, ychydig o le, os o gwbl, sydd gan blant tlawd i chwarae ynddo, ac maent yn byw mewn ardaloedd gyda llai o siopau ac amwynderau; mae plant o'r dosbarth cymdeithasol isaf bedair gwaith yn fwy tebygol o farw mewn damwain ac mae ganddynt bron ddwywaith y gyfradd o salwch tymor hir na'r rheini sy'n byw mewn aelwyd ag incwm uchel. Mae plant sy'n tyfu mewn tlodi yn llawer llai tebygol o wneud yn dda yn yr ysgol ac maent yn llawer mwy tebygol o adael y system addysg heb unrhyw gymwysterau o gwbl[5].

Mae'r DU yn wlad gyfoethog, ac eto mae mwy nag un plentyn mewn pedwar yn byw mewn aelwydydd sydd dan y trothwy tlodi a dderbynnir yn gyffredinol, sef 60 y cant o'r canolrif incwm. O blith y 25 o wledydd sydd yn yr Undeb Ewropeaidd, dim ond yr Eidal, Portiwgal a'r Weriniaeth Slofacaidd sydd â lefelau uwch o dlodi plant[6]. Ym 1999, ymrwymodd Tony Blair ei lywodraeth i addewid beiddgar i ddileu tlodi plant yn y DU o fewn 'cenhedlaeth'. Pennodd Llywodraeth y DU gyfres o dargedau i gyflawni'r nod uchelgeisiol hwn, gyda'r cyntaf ohonynt (i leihau tlodi plant o un chwarter) wedi ei bennu ar gyfer Mawrth 2005. Yn anffodus, er i newidiadau o ran treth a budd-daliadau a pholisïau o fudd-dal i les a gyflwynwyd gan y Llywodraeth godi llawer o blant allan o dlodi, methwyd y targed, o 300,000 o blant.

---

[2] *Adroddiad a Chyfrifon 2001-2* Comisiynydd Plant Cymru (2002), http://www.childcom.org.uk

[3] Bradshaw, J a Mayhew, E.(2005) *The Well-being of Children in the UK.* Prifysgol Efrog, ac Achub y Plant.

[4] Magadi M. a Middleton, S., (2007) *Severe Child Poverty in the UK* Llundain: *Achub y Plant* Ar gael yn http://www.savethechildren.org.uk/en/54_2196.htm

[5] Bradshaw, J a Mayhew, E.(2005) *The Well-being of Children in the UK.* Prifysgol Efrog ac Achub y Plant.

[6] UNICEF, Canolfan Ymchwil Innocenti (2007) *Cerdyn Adrodd 7: Trosolwg o les plant mewn Gwledydd Cyfoethog* Fflorens, www.unicef.org/irc

Er y bydd angen newid trethi a'r system fudd-daliadau ymhellach i fynd i'r afael â thlodi incwm, mae adroddiad diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree [7] yn nodi'r hyn sydd ei angen i roi terfyn ar dlodi plant erbyn y flwyddyn 2020 a sicrhau bod y llywodraeth yn cyrraedd ei tharged o'i haneru erbyn 2010. Mae'r adroddiad yn ei gwneud hi'n glir na fydd trosglwyddiadau incwm, ynddynt hwy eu hunain, yn ddigon, a bod angen cyfuno mesurau cyllidol gyda pholisïau eraill er mwyn gwella incwm rhieni. Nodant fod llawer o rieni 2020 dal yn yr ysgol heddiw ac y byddai ymdrech benderfynol i wella canlyniadau addysgol grwpiau difreintiedig, ac ymdrechion o'r newydd i wella cyflog isel a llwybr menywod at ofal plant, yn helpu rhieni yfory i ffynnu yn y farchnad lafur. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod nifer o atebion i dlodi plant yn rhai y mae gofyn mynd i'r afael â hwy ar lefel ddatganoledig o lywodraeth, sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yr astudiaeth hon

Yn gynharach eleni, gyda chefnogaeth ariannol gan Gronfa Syniadau Newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, aeth Achub y Plant a Sefydliad Bevan ati i ymgymryd ag astudiaeth cwmpasu polisi i archwilio amgylchiadau plant a oedd yn byw yn y tlodi mwyaf difrifol yng Nghymru ac i ystyried yr atebion polisi mwyaf effeithiol y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid eu mabwysiadu i fynd i'r afael â thlodi plant difrifol.

Roedd tri cham i'r prosiect. Y cyntaf oedd dadansoddi data a oedd eisoes ar gael er cael mwy o wybodaeth am amgylchiadau plant sy'n byw mewn tlodi difrifol yng Nghymru. Yr ail gam oedd adolygu'r llenyddiaeth er mwyn archwilio pa atebion polisi (heblaw'r ddarpariaeth treth a budd-daliadau, nad yw wedi ei datganoli) sydd wedi gweithio mewn llefydd eraill i fynd i'r afael ag amgylchiadau penodol y plant a'r teuluoedd hynny sydd fwyaf tebygol o fod yn byw mewn tlodi plant difrifol yng Nghymru. Trydydd cam y prosiect oedd dwyn ynghyd arbenigwyr yn eu meysydd eu hunain mewn seminar i drafod y meysydd polisi mwyaf addawol i ddeillio o'r adolygiad llenyddiaeth, a'u datblygu yn opsiynau polisi cadarnach i'w cyflwyno ger bron Llywodraeth Cynulliad Cymru iddi hithau ystyried eu cynnwys yn ei strategaeth i fynd i'r afael â thlodi plant.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau'r ymarfer hwnnw.

[7] Evans, M. a Scarborough, J. (2006) *Can Current Policy End Child Poverty by 2020?* Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree http://www.jrf.org.uk/knowledge/findings/socialpolicy/0376.asp

2. Diffiniadau a mesuriadau

Er gwaethaf gostyngiad yn nifer y plant sy'n byw mewn tlodi plant yng Nghymru yn ystod y cyfnod 1999-2005, awgryma ymchwil ei bod hi'n bosibl nad yw sefyllfa plant o'r teuluoedd tlotaf un yn gwella mor gyflym. Mae'r ymchwil ddiweddaraf a gynhaliwyd gan y Sefydliad Polisi Newydd ac a gyhoeddwyd gan Joseph Rowntree ym mis Tachwedd 2007, yn dangos bod tlodi plant yng Nghymru oddeutu chwarter yn llai nag ydoedd ddiwedd yr 1990au, ond na fu unrhyw gynnydd pellach yn y ddwy flynedd diwethaf, gyda'r gyfradd yn cloffi o gwmpas y 28%.[8] Wrth i'r dyddiad targed pan ddylai tlodi plant fod wedi'i haneru - 2010 – ddynesu, rhaid mynd i'r afael ag anghenion y rheini sydd yn y tlodi mwyaf difrifol. Ni chaiff tlodi plant fyth mo'i ddileu unwaith ac am byth oni fydd polisïau'n canolbwyntio ar y rheini yn y tlodi mwyaf difrifol.

Er mwyn archwilio natur ac ehangder tlodi plant yng Nghymru, comisiynodd tîm y prosiect astudiaeth gan y Sefydliad Polisi Newydd o'r data diweddaraf. Mae'r adran hon yn crynhoi'r diffiniadau a'r mesuriadau a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth honno, a bydd yr adran nesaf yn crynhoi canfyddiadau allweddol yr astudiaeth honno, a chwaer astudiaeth a gyflawnwyd gan Magadi a Middleton.[9] Mae copi o adroddiad llawn y Sefydliad Polisi Newydd ar gael ar wahân.

Diffinio a mesur tlodi plant difrifol

Nid oes unrhyw un diffiniad safonol o dlodi y ceir cytundeb cyffredinol yn ei gylch. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddiffiniadau modern yn seiliedig ar ddealltwriaeth gymdeithasol bod tlodi'n ymwneud â'r adnoddau sydd gan bobl o'u cymharu ag eraill, yn hytrach na diffyg hanfodion ffisegol yn unig. Mae'r agwedd hon yn golygu bod tlodi yn cael ei ddiffinio fel 'cyflwr cymharol', sef syrthio'n ôl o'r cyfartaledd y bydd gweddill cymdeithas yn ei fwynhau, yn ôl cyfradd a ddiffinnir. Mae graddau'r 'syrthio'n ôl' sydd wedyn yn golygu 'tlodi', yna'n fater i'w drafod. Mae'r agwedd hon hefyd yn bwysig am ei bod yn cydnabod bod tlodi'n cwmpasu diffyg ystod gyflawn o adnoddau, gan gynnwys incwm, ond hefyd adnoddau eraill, sy'n golygu bod pobl sy'n byw mewn tlodi'n cael eu hallgau o batrymau, arferion a gweithgareddau byw bob dydd.

Er mwyn cydnabod yr anawsterau o ddiffinio a mesur tlodi plant, mae Llywodraeth y DU wedi mabwysiadu agwedd 'haenog'. Mae'r mesur newydd, a fabwysiadwyd hefyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ei Strategaeth Tlodi Plant 2005, yn cynnwys:

1. Incwm isel absoliwt – i fesur a yw'r teuluoedd tlotaf yn gweld eu hincwm yn codi mewn termau real.

[8] Palmer, G. MacInnes, T. a Kenway, P. (2007) *Monitoring Poverty and Social Exclusion in Wales 2007*, Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree ar gael yn http://www.jrf.org.uk/knowledge/findings/socialpolicy/2096.asp

[9] Magadi, M. a Middleton, S. (2007) *Severe Child Poverty in the UK,* Llundain: Achub y Plant. Ar gael yn http://www.savethechildren.org.uk/en/54_2196.htm

2. Incwm isel cymharol - i fesur a yw'r teuluoedd tlotaf yn dal eu tir gyda chynnydd incwm yn yr economi yn ei chyfanrwydd.

3. Amddifadedd materol ac incwm isel gyda'i gilydd – i roi mesur ehangach o safonau byw pobl.

Mae'r olaf o'r mesurau hyn yn arbennig o bwysig. Tan yn ddiweddar iawn, roedd tlodi plant difrifol yn cael ei fesur trwy ddefnyddio incwm aelwyd yn unig. Plant a oedd yn byw mewn aelwyd ar incwm yn y bandiau degradd isaf o incwm teulu a ddiffinnid fel y rhai mwyaf difrifol dlawd. Fodd bynnag, daeth astudiaeth a gyflawnwyd yn 2003 gan Adelman et al.[10] i'r casgliad mai'r dull gorau o fesur tlodi plant difrifol oedd trwy gyfuno lefel isel o incwm aelwyd, amddifadedd plant ac amddifadedd rhieni. Mantais yr agwedd hon yw ei bod yn mynd gam o'r ffordd tuag at grisialu effaith tlodi plant a'r profiad ohono, trwy fesur presenoldeb neu ddiffyg presenoldeb pethau, er efallai'n fach, sydd hefyd yn arwyddocaol ac yn norm cymdeithasol i blant (megis y gallu i wahodd ffrindiau i de) ochr yn ochr â mesur incwm aelwyd. Wrth gynnwys amddifadedd yn y mesur ceir hefyd y fantais o adlewyrchu rhywfaint o fynychder tlodi.

Y mesur incwm

Ceir peth trafod ynghylch pa mor bell dan y norm y mae'n rhaid i incwm aelwyd fod cyn cael ei ddiffinio fel bod 'mewn tlodi'. Mae rhai wedi awgrymu trothwy o 70 y cant o'r canolrif incwm, ond y diffiniad o dlodi a dderbynnir yn helaeth yw incwm aelwyd dan 60 y cant o'r canolrif incwm. Diffinnir tlodi difrïol yn gyffredinol fel incwm aelwyd dan 50 y cant o'r canolrif incwm.

Mesurir tlodi incwm yn ôl y math o aelwyd, gan adlewyrchu'r dybiaeth synnwyr cyffredin bod angen incwm uwch ar deulu o lawer o bobl na pherson sengl er mwyn i'r ddwy aelwyd fwynhau safon gymharol o fywyd. Gelwir y broses hon yn 'gyfwertholi' ac mae ei hangen er mwyn gwneud cymariaethau synhwyrol rhwng aelwydydd.

Mae Tabl 1 yn dangos y trothwyon lle pennir bod aelwyd mewn tlodi incwm difrifol ar gyfer gwahanol fathau o aelwyd, h.y. 50 y cant o ganolrif incwm y math yna o aelwyd. Mae'n dangos bod ar rai aelwydd angen incwm sylweddol uwch nag eraill os ydynt i osgoi tlodi incwm difrifol (e.e. mae aelwyd un cwpl â dau o blant 8 a 14 oed angen incwm aelwyd net, ar ôl costau tai, o dros £217 yr wythnos i fod dros y trothwy canolrif incwm o 50 y cant, bron i ddwywaith y swm sydd ei angen ar unig riant â phlentyn 8 oed).

[10] Adelman, L., Middleton, S. a Ashworth, K. (2003). *Britain's Poorest Children: Severe and persistent poverty and social exclusion.* Llundain: Achub y Plant.

Tabl 1: Trothwyon incwm tlodi difrifol ar ôl costau tai: 2005/06

Math o aelwyd	***Incwm wythnosol ar 50% o'r canolrif incwm***
Oedolyn sengl, un plentyn 8 oed	£121
Oedolyn sengl, dau o blant 8 ac 14 oed	£186
Cwpl, un plentyn 8 oed	£186
Cwpl, dau o blant dan 14 oed	£217
Cwpl, dau o blant 8 ac 14 oed	£251

Ffynhonnell: Sefydliad Polisi Newydd

Rôl costau tai

Gellir mesur incwm aelwyd naill ai cyn neu ar ôl costau tai. Os yw incwm aelwyd yn cael ei fesur ar ôl costau tai, yna cyfrifir y trothwy tlodi a chanran yr aelwydydd sy'n byw oddi tano ar ôl tynnu lwfans am gostau tai. Nid yw mesur cyn costau tai yn tynnu'r costau hyn. Mae'n bosibl felly bod mesur cyn costau tai yn cuddio aelwydydd y mae eu costau tai uchel yn eu gwthio dros y trothwy tlodi ac yn yr un modd gallai ddiffinio aelwydydd â chostau tai isel yn anghywir fel rhai sydd mewn tlodi. Golyga hyn bod mesur 'ar ôl costau tai' yn cael ei dderbyn yn helaeth fel mesur gwell o incwm gwario aelwyd, a hwn a ddefnyddir yma.

Costau eraill na ellir eu hosgoi

Er y gellir ystyried costau tai, nid yw'r dull hwn o fesur tlodi'n ystyried costau aelwyd eraill na ellir mo'u hosgoi, e.e. os yw cartref yn arbennig o anodd ei wresogi, neu'r costau byw uwch sy'n gysylltiedig â bod ag anabledd. Er nad oes diffiniad cytunedig ynghylch 'costau ychwanegol' byw ag anabledd,[11] mae'n amlwg bod y costau o fod â phlentyn anabl oddeutu deirgwaith yn uwch na bod â phlentyn heb anabledd[12] ac mae costau byw oedolyn ag anabledd dros £200 yr wythnos yn uwch na'r hyn a delir mewn budd-daliadau, a dibynnu ar natur yr anabledd.[13] Golyga hyn y gallai aelwyd sy'n cynnwys person anabl yn rhwydd fyw mewn tlodi hyd yn oed os yw incwm yr aelwyd dros y trothwy tlodi.

[11] Tibble, M. (2005) *Review of existing research on the extra costs of disability*, Llundain: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Papur Gwaith Rhif 21 http://www.dwp.gov.uk/asd/asd5/WP21.pdf

[12] Dobson, B. a Middleton, S. **(1998)** *Paying to care: The cost of childhood disability*, Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

[13] Smith, N., Middleton, S., Ashton-Brooks, K., Cox, L. a Dobson, B. gyda Reith, L. (2004) *Disabled people's costs of living - more than you would think*, Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree http://www.jrf.org.uk/bookshop/eBooks/1859352375.pdf

Y mesur amddifadedd materol

Mae'n bosib ei bod hi hyd yn oed yn fwy anodd cytuno ynghylch mesur safonol o amddifadedd materol. Fodd bynnag, llwyddodd dadansoddiad o'r holl astudiaethau am amddifadedd yn y DU i ddiffinio'r nwyddau a'r gwasanaethau hynny a oedd yn gwahaniaethu fwyaf rhwng teuluoedd tlawd a theuluoedd nad oedd yn dlawd ac a oedd fwyaf perthnasol i dlodi plant.[14] Cynhwyswyd cwestiynau am yr eitemau hyn wedyn yn yr Arolwg Adnoddau Teulu o 2004/05 ymlaen, a data o'r rhain a ddefnyddir yn y rhan fwyaf o ddadansoddiadau o amddifadedd materol.

Tabl 2: Hanfodion oedolion a phlant

Hanfodion Oedolyn	**Hanfodion Plentyn**
Gwyliau oddi cartref am o leiaf un wythnos y flwyddyn	Gwyliau teulu oddi cartref am o leiaf un wythnos y flwyddyn
Ffrindiau neu deulu'n dod draw am ddiod neu bryd o fwyd o leiaf unwaith y mis	Digon o lofftydd i bob plentyn 10 oed neu drosodd o ryw gwahanol gael eu llofft eu hun
Dau bâr o esgidiau bob tywydd i bob oedolyn yn yr uned fuddiant	Offer hamdden megis offer chwaraeon neu feic
Digon o arian i gadw eich cartref wedi ei addurno'n ddechau	Dathliadau ar achlysuron arbennig megis pen-blwydd, Nadolig neu wyliau crefyddol eraill
Yswiriant cynnwys aelwyd	Mynd i nofio o leiaf unwaith y mis
Bod â hobi neu weithgarwch hamdden	Gwneud hobi neu weithgarwch hamdden
Disodli unrhyw ddodrefn sydd wedi treulio	Cael ffrindiau draw am de neu fyrbryd sydyn o leiaf unwaith y pythefnos
Disodli neu drwsio nwyddau trydanol megis rhewgell neu beiriant golchi pan fyddant wedi torri	Mynd i grŵp plant bach/meithrinfa/grŵp chwarae o leiaf unwaith yr wythnos (i blant dan chwech oed nad ydynt yn mynychu ysgol gynradd neu ysgol breifat) NEU Fynd ar dripiau ysgol (i'r rheini sydd dros chwech oed, neu dan chwech ac yn mynychu ysgol gynradd neu breifat)
Bod â rhywfaint bach o arian i wario arnoch chi eich hun (nid ar eich teulu) bob wythnos	
Cynilo £10 y mis neu fwy yn rheolaidd ar gyfer digwyddiad annisgwyl neu ymddeoliad	

Ffynhonnell: Magadi, M. a Middleton, S. (2007) *Severe Child Poverty in the UK,* Llundain: Achub y Plant.

[14] McKay, S. a Collard, S. (2004) 'Developing Family Resources Survey Questions', Yr Adran Gwaith a Phensiynau, papur gwaith rhif 13, a ddyfynnwyd yn Magadi, M. a Middleton, S. (2007), op. cit.

Mae a yw aelwyd yn brin o un neu ragor o'r hanfodion a bennir yn yr *Arolwg Adnoddau Teulu* felly yn ddangosydd o ryw raddfa o amddifadedd materol, o leiaf, er bod nifer o wahanol ffyrdd o fesur y diffyg hwn. Ar ôl profi nifer o wahanol agweddau, daeth astudiaeth a gomisiynwyd gan Achub y Plant i'r casgliad mai'r ffordd orau o fesur amddifadedd materol a oedd yn gysylltiedig â thlodi plant oedd a oedd aelwyd yn methu fforddio dau neu ragor o hanfodion plentyn neu hanfodion oedolyn[15]. Y mesur felly a ddefnyddir yn yr arolwg hwn ac mewn arolygon eraill o dlodi plant difrifol yw:

- aelwyd sydd ag incwm dan 50 y cant o'r canolrif incwm ar gyfer y math hwnnw o aelwyd; a

- bod plentyn yn yr aelwyd heb ddau neu ragor o'r hanfodion, a bod oedolyn heb o leiaf un (neu fel arall).

Y data

Roedd dadansoddi data yr oeddem wedi bwriadu ei ddefnyddio i gael mwy o wybodaeth am amgylchiadau plant sy'n byw mewn tlodi difrifol yng Nghymru yn broblem. Yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon, sydd â samplau helaeth yn *Arolwg Adnoddau Teulu* Llywodraeth y DU, roedd maint sampl aelwydydd Cymru yn yr arolwg blynyddol DU-gyfan hwn yn rhy fach i alluogi dadansoddiad manwl, penodol ar gyfer Cymru.

Roedd ein hastudiaeth felly'n dibynnu ar gyfuniad o'r dadansoddiadau data eilaidd isod:

a) Data Cymru yn yr *Arolwg Adnoddau Teulu*: gwnaeth y Sefydliad Polisi Newydd ddadansoddiad yn defnyddio cyfartaledd tair blynedd diwethaf yr Arolwg Adnoddau Teulu, a'r dataset yn deillio ohono, *Aelwydydd dan Incwm Cyfartalog*, rhwng 2003/04 a 2005/06. At ei gilydd, yn y tri arolwg yma, mae 220 o achosion o aelwydydd yng Nghymru â phlant dan 50 y cant o'r canolrif incwm. Nid yw hwn yn sampl mawr iawn, felly mae angen bod yn wyliadwrus iawn o'r canlyniadau. Nid yw data am amddifadedd materol ond ar gael (cyn belled) ar gyfer 2004/05 a 2005/06. Yn y ddwy flynedd yma, dim ond 90 o achosion o aelwydydd â phlant yng Nghymru sydd yn byw mewn tlodi difrifol.

b) Data lefel y DU yn yr *Arolwg Adnoddau Teulu*: Dadansoddiad o dlodi plant difrifol trwy ddefnyddio'r mesur incwm ac amddifadedd cymysg a wnaed gan Magadi a Middleton yn 2006.

Credwn fod bychander sampl Cymru yn yr *Arolwg Adnoddau Teulu* yn rhwystr sylweddol rhag ein helpu i ddeall sut gallwn orau fynd i'r afael â thlodi plant difrifol yng Nghymru a, thrwy hynny, gyflawni'r nod o ddileu tlodi plant. Yr ydym yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i gomisiynu chwyddo maint sampl Cymru yn yr *Arolwg Adnoddau Teulu* i fod yr un faint â Gogledd Iwerddon, a hynny fel mater o frys.

[15] Magadi, M. a Middleton, S. (2007) *Severe Child Poverty in the UK,* Llundain: Achub y Plant.

3. Tlodi Plant Difrifol yng Nghymru

Amcangyfrifir bod oddeutu 13% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi difrifol (oddeutu 90,000 o blant)[16] . Mae'r plant hyn yn byw mewn aelwyd ag incwm dan 50% o'r canolrif incwm **ac** fe gawsant eu hamddifadu o ddau neu ragor o nwyddau neu wasanaethau am nad oedd y teulu'n gallu eu fforddio. Nid pethau ffisegol, megis offer chwaraeon, oedd y pethau mwyaf cyffredin yr oedd plant yn cael eu hamddifadu ohonynt, ond achlysuron, megis tripiau ysgol, gwyliau neu wahodd ffrindiau draw am de. Nid oedd unrhyw achosion o blant yn cael eu hamddifadu o rywbeth heb i oedolion gael eu hamddifadu o bethau hefyd.

Roedd canran fymryn uwch, 19 y cant (oddeutu 130,000 o blant), yn byw mewn aelwydydd oedd ag incwm dan 50 y cant o'r canolrif incwm ar gyfer aelwyd o'r math hwnnw ond ni wnaethant nodi eu bod yn cael eu hamddifadu o unrhyw nwyddau neu wasanaethau materol.

Cymru yn ei chyd-destun

Yn 2005/06, roedd canran y plant yng Nghymru a oedd yn byw mewn tlodi yn debyg i weddill y DU. Mae rhwng 25% a 30% o'r holl blant yn byw mewn aelwydydd â llai na 60% o'r canolrif incwm, ffigur sy'n agos iawn at gyfartaledd y DU. Mae oddeutu 20% o blant yng Nghymru yn byw mewn aelwydydd â llai na 50% o'r canolrif incwm, yr un fath â chyfartaledd y DU. Mae rhwng 10% a 15% o blant yng Nghymru yn byw mewn aelwyd sydd ag incwm dan 50% o'r canolrif incwm ac ni allant fforddio o leiaf ddau o'r hanfodion a restrwyd yn Nhabl 2 (tudalen 14).

Nodweddion aelwydydd mewn tlodi difrifol

Mae astudiaeth Magadi a Middleton yn dangos, ar lefel y DU, bod nifer o nodweddion aelwyd sy'n cysylltu'n gryf â thlodi plant difrifol. Canfuont fod plant sy'n byw mewn tlodi difrifol yn debygol iawn o fod yn byw mewn aelwydydd lle nad oes yr un oedolyn yn gweithio, mewn aelwydydd unig riant, ac mewn aelwydydd lle mae oedolyn anabl yn bresennol. Mae plant mewn tlodi difrifol yn fwy tebygol o fyw mewn aelwydydd â'r nodweddion hyn na phlant mewn tlodi 'safonol' (lle mae incwm eu haelwyd dan 60 y cant o'r canolrif incwm). Mae Atodiad 1 yn dangos canran y plant mewn tlodi difrifol, tlodi safonol a'r rhai nad ydynt yn dlawd, sy'n byw mewn aelwydydd ag amrywiol nodweddion.

Mae gweddill yr adran hon yn archwilio'r tair nodwedd allweddol yn fwy manwl.

Statws gwaith

Mae statws gwaith yn allweddol i'r tebygrwydd bod aelwydydd yn byw mewn tlodi difrifol. Yr hyn sy'n amlwg o'r graff drosodd yw po fwyaf o waith y mae'r aelwyd yn ei

[16] Magadi, M. a Middleton, S. (2007) *Severe Child Poverty in the UK,* Llundain: Achub y Plant. Ar gael yn http://www.savethechildren.org.uk/en/54_2196.htm

wneud, po isaf y perygl o incwm dan 50 y cant o'r canolrif incwm ar gyfer y math hwnnw o aelwyd.

Ffigur 1: Plant mewn tlodi yn ôl statws gwaith



Ar lefel y DU, mae gan fwyafrif (62%) y plant mewn tlodi difrifol rieni heb waith, o'i gymharu â dim ond 5 y cant o blant nad ydynt mewn tlodi. Canfu astudiaeth Magadi a Middleton bod teuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau sy'n agored i brawf modd (Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm a Chredyd Treth Gwaith) mewn perygl penodol o dlodi difrifol. Roedd gan y teuluoedd hyn hefyd lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol, sy'n awgrymu y gellid bod problemau gyda gallu'r aelwyd i gyflwyno a phrysuro hawliad.

Ceir sefyllfa gyffelyb gyda phlant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm difrifol, lle'r oedd gan oddeutu 90% o blant a oedd yn byw mewn aelwydydd lle mae pennaeth yr aelwyd yn ddi-waith, incwm dan 50 y cant o'r canolrif incwm. Mae'r darlun fymryn yn well gyda phlant sy'n byw mewn aelwydydd sydd heb waith, ond nid yn ddi-waith (er enghraifft, os yw pennaeth yr aelwyd yn hawlio Budd-dal Analluedd): mae gan hanner y plant yn y math hwn o aelwyd incwm dan 50 y cant o'r canolrif incwm.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw bod â gwaith cyflogedig yn gwarantu y bydd aelwyd yn dianc rhag tlodi difrifol. Er, mewn theori, y dylai teuluoedd lle mae oedolion yn cyflawni o leiaf 16 awr o waith allu osgoi tlodi difrifol (os nad osgoi tlodi 'safonol'), mae'n amlwg bod rhai yn methu. Mae oddeutu 20 y cant o blant mewn

tlodi difrifol yn byw mewn aelwydydd yng Nghymru lle mae oedolion ond yn gweithio rhan amser, ac mae oddeutu 10 y cant yn byw mewn aelwydydd cwpl lle mae un oedolyn yn gweithio a'r llall ddim. Mae'n bosib eu bod yn byw mewn tlodi difrifol oherwydd diffyg cymorth gyda chostau morgais neu oherwydd nad yw budd-daliadau mewn-gwaith e.e. Credyd Treth Gwaith yn cael eu hawlio.

Math o aelwyd

Mae data'r DU am dlodi difrifol yn dangos bod byw mewn teulu unig riant yn cysylltu'n gryf â thlodi difrifol. Canfu Magadi a Middleton bod 48 y cant o blant mewn tlodi difrifol yn byw mewn teuluoedd unig riant o'i gymharu â 15 y cant o blant nad oedd mewn tlodi. Yng Nghymru, ceir cysylltiad yr un mor gryf rhwng unig rianta a thlodi incwm difrifol. Mae bron i hanner y plant sy'n byw mewn aelwydydd â llai na 50 y cant o'r canolrif incwm yn byw mewn aelwydydd oedolyn sengl. Mae Ffigur 2 yn dangos y patrwm hwn yn glir.[17]

Ffigur 2: Canran yr holl blant mewn tlodi, yn ôl math o aelwyd.



[17] Yn wyneb maint bychan y samp y cyfeiriwyd ato'n flaenorol, dim ond aelwydydd oedran gwaith a gynhwysir yn y dadansoddiad isod, sy'n golygu na chynhwyswyd plant sy'n byw gyda'u neiniau a'u teidiau (nifer bychan iawn).

Daw Magadi a Middleton i'r casgliad, fodd bynnag, bod y cysylltiad rhwng unig rianta a thlodi difrifol yn cael ei ysgogi gan y gyfradd gyflogaeth isel ymhlith yr aelwydydd hyn. Mae astudiaeth y Sefydliad Polisi Newydd yn ymhelaethu ar y pwynt hwn gyda phlant mewn aelwydydd mewn tlodi difrifol. Mae mwyafrif y plant mewn aelwydydd oedolyn sengl tlawd yn byw mewn aelwydydd lle nad yw'r oedolyn yn gweithio. A derbyn bod aelwydydd nad ydynt yn gweithio yn fwy tebygol o fod ag incwm dan 50 y cant o'r canolrif incwm, gellid disgwyl y crynodiad mwyaf hwn o fod heb waith ymhlith y rheini â'r incwm isaf.

Mae'r cydbwysedd yn wahanol gyda phlant mewn aelwydydd cwpl ag incwm dan 50 y cant o'r canolrif incwm. Nid oes gan oddeutu 60% o blant yn yr aelwydydd hyn oedolyn mewn gwaith. Byddem yn disgwyl i blant mewn aelwydydd cwpl nad ydynt yn gweithio fod ag incwm dan 50 y cant o'r canolrif incwm, yn wyneb yr amcangyfrifon o incwm budd-daliadau a ddangosir yn Atodiad 2. Fodd bynnag, roedd oddeutu dau draean o blant mewn aelwydydd cwpl gydag incwm dan 50 y cant o'r canolrif incwm yn byw mewn aelwydydd lle'r oedd o leiaf un oedolyn yn gweithio – oddeutu 40,000 o blant. Mae hyn yn fwy o syndod oherwydd na ddylai aelwydydd lle mae'r ddau oedolyn yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, mewn theori, fod ag incwm mor isel. Mae'r ffigur hwn, mae'n debyg, yn ganlyniad i'r ffaith y byddai unrhyw aelwyd sy'n talu morgais mewn sefyllfa waeth na'r hyn y mae'r tabl yn Atodiad 1 yn ei awgrymu. Yn wir, roedd dros hanner y plant a oedd yn byw mewn aelwydydd cwpl a ddiffiniwyd yn "rhai'n gweithio" yn byw mewn eiddo perchen-feddiannaeth. Nid yn unig y mae hyn yn golygu nad yw'r aelwyd yn gymwys i dderbyn Budd-dal Tai, ond hefyd bod costau tai yn aml yn uwch i berchen-feddianwyr nag ydynt i rentwyr, beth bynnag, ac mae hyn yn cynyddu'r perygl o gael incwm aelwyd dan 50 y cant o'r canolrif incwm.

Ffigur 3: Plant dan 50 y cant o'r canolrif incwm yn ôl math o aelwyd a statws gwaith.



Anabledd rhiant

Ar lefel y DU, mae presenoldeb oedolion anabl yn cysylltu'n gryf â thlodi plant difrifol. Roedd oddeutu traean (33%) o blant mewn tlodi difrifol mewn teuluoedd lle'r oedd oedolion anabl, o'i gymharu â 18 y cant o blant nad oedd mewn tlodi. Nid yw'r ffigurau hyn yn ystyried y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â byw ag anabledd. Dengys ymchwil bod pobl anabl yn wynebu costau ychwanegol ymron bob agwedd ar fywyd bob dydd, gan amrywio o wariant mawr ar offer hanfodol i filiau ychwanegol rwtîn ar gyfer bwyd, dillad, tanwydd, cludiant a gweithgareddau hamdden.[18]

Ffigur 4: Canran y plant yng Nghymru mewn tlodi, yn ôl anabledd rhiant



Yng Nghymru, mae bod â rhiant anabl yn cynyddu'r perygl o gael incwm dan 50 y cant o'r canolrif incwm. Mae oddeutu 25% o blant â rhieni anabl yng Nghymru mewn tlodi incwm difrifol o'i gymharu â 15% heb riant anabl. Mae Ffigur 5 yn dangos nifer y plant yng Nghymru mewn aelwydydd dan 50 y cant o'r canolrif incwm yn ôl eu math o deulu a statws anabledd y rhieni.

[18] Smith, N., Middleton, S., Ashton-Brooks, K., Cox, L. a Dobson, B. gyda Reith, L. (2004) *op. cit.*

Ffigur 5: Dadansoddiad o blant yng Nghymru mewn tlodi yn ôl nifer yr oedolion yn yr aelwyd ac anabledd rhiant

Mae oddeutu dau o bob pum plentyn mewn aelwydydd cwpl dan 50% o'r canolrif incwm â rhiant sy'n anabl. Mae oddeutu un o bob chwe phlentyn mewn aelwydydd oedolyn sengl dan 50% o'r canolrif incwm â rhiant sy'n anabl.



Ymhlith aelwydydd ag incwm dan 50 y cant o'r canolrif incwm, mae canran mwy o blant mewn aelwydydd cwpl â rhiant anabl na phlant mewn aelwydydd oedolyn sengl.

Nid yw'r cysylltiad hwn rhwng tlodi incwm difrifol ac anabledd yn syndod, o gofio bod pobl ag anabledd yn llawer llai tebygol o fod mewn gwaith na phobl heb anabledd. Yng Nghymru yn y flwyddyn yn gorffen 31ain Mawrth 2007, dim ond 47 y cant o bobl ag anabledd oedd mewn gwaith.

Ffactorau eraill

Roedd astudiaeth Magadi a Middleton hefyd yn nodi cysylltiadau arwyddocaol pellach rhwng tlodi plant difrifol a nodweddion aelwyd ar lefel DU fel a ganlyn. Oherwydd bychander sampl Cymru yn yr *Arolwg Adnoddau Teulu*, nid oes data dibynadwy cyffelyb ar gael ar gyfer Cymru.

- Mae byw mewn teulu mawr yn cysylltu'n gryf â thlodi difrifol.
  Roedd dau ddeg un y cant o blant y DU mewn tlodi difrifol mewn teuluoedd gyda phedwar neu fwy o blant, o'i gymharu â dim ond 6% o blant nad oedd mewn tlodi.

- Mae cysylltiad cryf rhwng cefndir ethnig a thlodi plant difrifol. Er bod mwyafrif y plant mewn tlodi difrifol o darddiad ethnig Gwyn Brydeinig (74%), mae cyfran anghymesur o'r rheini mewn tlodi difrifol (15%) o darddiad Asiaidd/Asiaidd Brydeinig er mai dim ond 6% o holl blant y DU sydd o darddiad Asiaidd/Asiaidd Brydeinig (o bosib oherwydd cyfradd gweithgarwch economaidd is menywod

Asiaidd). Mae canran y plant yng Nghymru o darddiad Asiaidd/Asiaidd Brydeinig yn is na ffigur y DU.

- Mae cysylltiad cryf rhwng cyrhaeddiad addysgol rhieni a thlodi plant difrifol. Roedd canran sylweddol uwch o famau plant mewn tlodi difrifol heb unrhyw gymwysterau (44%), o'i gymharu â mamau plant mewn tlodi nad oedd yn ddifrifol (31%) neu blant nad oedd mewn tlodi (11%).

Casgliadau

Mae'r canfyddiadau hyn yn ganolog i ddatblygu opsiynau polisi ar gyfer mynd i'r afael â thlodi difrifol yng Nghymru ac maent yn tynnu sylw at rai o'r materion allweddol y dylai unrhyw strategaeth fynd i'r afael â nhw.

Yn gyntaf, maent yn dangos yn glir bod diffyg gwaith cyflogedig yn ffactor sy'n cyfrannu'n gryf at dlodi plant difrifol. Ymddengys bod diweithdra a, thrwy hynny, dibyniaeth ar fudd-daliadau sy'n amodol ar brawf modd, wedi'i gysylltu'n gryf â thlodi difrifol er bod pob ffurf ar fod heb waith yn ei gwneud hi'n fwy tebygol na pheidio y bydd plentyn yn byw mewn tlodi difrifol. Mae'n debygol felly y bydd hwyluso llwybr rhieni at waith cyflogedig yn allweddol i unrhyw strategaeth tlodi plant.

Yn ail, ac yr un mor bwysig, mae'r canfyddiadau'n dangos nad yw gwaith cyflogedig yn gwarantu y bydd aelwyd yn dianc rhag tlodi difrifol. Er ei bod hi'n wir mai po fwyaf o waith y mae aelwyd yn ei wneud po leiaf y tebygrwydd o dlodi difrifol, mae cyfran o blant mewn tlodi difrifol yn byw mewn aelwydydd lle mae o leiaf un oedolyn yn gweithio. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu y gellid bod angen ystyried rhai materion pwysig yng nghyswllt nifer yr oriau o waith y mae aelwyd yn eu cyflawni, effaith costau tai uchel ac ymwybyddiaeth ynghylch hawlio budd-daliadau mewn-gwaith, a hwyluso hawliadau o'r fath.

Yn drydydd, mae cysylltiad cryf rhwng tlodi difrifol ac anabledd y rhiant. Yn wir, mae tlodi difrifol yn debygol o fod hyd yn oed yn fwy helaeth na'r hyn y mae'r data yn ei awgrymu oherwydd y costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth fyw ag anabledd. Mae'n debyg bod diffyg gwaith cyflogedig yn berthnasol yma hefyd. Mae'n bosib bod rhai pobl ag anabledd yn gallu gweithio ond mae'n bosib nad yw eraill - mae sut i ddarparu safon ddechau o fyw i bobl nad ydynt yn gallu gweithio yn gwestiwn sylfaenol.

Yn bedwerydd, ymddengys bod y cysylltiadau rhwng gwahanol nodweddion aelwyd a thlodi difrifol yn gymhleth. Ymhlith teuluoedd mewn tlodi difrifol, ymddengys bod crynodiad sylweddol o nodweddion sy'n gorgyffwrdd, a gallai hyn ei gwneud hi'n arbennig o anodd i deuluoedd o'r fath adael tlodi.

Yn olaf, un o'r materion y tynnodd y prosiect Syniadau Newydd sylw ato yw'r angen i gynyddu maint sampl Cymru yn sampl DU-gyfan yr *Arolwg Adnoddau Teulu*, er mwyn gallu mesur yn iawn, a gwneud dadansoddiad mwy cadarn o achosion tlodi plant difrifol yng Nghymru. Mae hyn yn digwydd yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, ac mae'n anodd gweld pam nad oes modd chwyddo'r sampl yng Nghymru. Bydd yn parhau i fod yn anodd cynllunio ac adnoddu polisïau a chamau gweithredu effeithiol i fynd i'r afael â thlodi plant difrifol heb wybodaeth helaethach am

amgylchiadau teuluoedd incwm isel yng Nghymru. Mae gan hyn oblygiadau difrifol; gellid dadlau, heb bolisïau penodol i dargedu'r rheini sy'n byw yn y tlodi mwyaf difrifol a mynych, na fydd targedau'r llywodraeth i ddileu tlodi plant yn cael eu cwrdd.

4. Polisïau cyfredol

Mae'r cyfrifoldeb dros fynd i'r afael â thlodi plant yn cael ei rannu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r ddwy yn rhannu'r un targed o haneru tlodi plant erbyn 2010 a'i ddileu'n llwyr erbyn 2020. Cynhyrchodd Llywodraeth Cynulliad Cymru strategaeth tlodi plant yn 2005,[19] yn amlinellu sut yr oedd yn bwriadu cyflawni'r targed hwn, gan adeiladu ar ymrwymiadau cynharach i ddarparu nofio am ddim i blant yn ystod gwyliau'r ysgol a brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd**.**

Roedd y strategaeth tlodi plant yn adeiladu ar set o werthoedd craidd, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Roedd yn cynnwys gweithredu allweddol mewn meysydd polisi lle mae gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb datganoledig, neu lle mae'n gallu cyfrannu at gyflawni swyddogaethau na ddatganolwyd. Roedd y pynciau y rhoddwyd sylw iddynt yn cynnwys:

- annog llwybrau at gyflogaeth
- cynhwysiant ariannol
- treth a budd-daliadau
- grantiau ar gyfer addysg bellach ac uwch
- gweithgareddau hamdden a chymdeithasol
- gwrth-gamwahaniaethu a bwlio
- gwrando ar leisiau pobl ifanc
- mynd i'r afael â thlodi gwasanaethau
- y cwricwlwm ysgol

Aeth Llywodraeth y Cynulliad ati wedyn i gynhyrchu cynllun gweithredu i ddarparu'r strategaeth tlodi plant,[20] a gyhoeddwyd yn 2006, ac ynghlwm wrthi yr oedd set o dargedau a cherrig milltir i fesur y cynnydd o ran mynd i'r afael â thlodi plant ym meysydd polisi datganoledig tai, iechyd, addysg a gofal plant, yn ogystal ag mewn cyflogaeth ac incwm aelwyd.

Roedd y cynllun gweithredu yn cynnwys cynigion polisi trawsbynciol yn unol â'r angen i fynd i'r afael â thlodi plant yn y brif ffrwd yn ogystal ag mewn ymgyrchoedd wedi'u targedu'n benodol. Y bwriad yw sicrhau bod adnoddau ledled y llywodraeth yn cael eu cyfeirio at anghenion y plant tlotaf. Yr oedd pob polisi i'w 'brofi' wrth iddo gael ei ddatblygu, er mwyn hyrwyddo atebion gwrth-dlodi a lliniaru effeithiau negyddol ar dlodi plant, hyd yn oed mewn meysydd polisi nad oeddent, yn draddodiadol, yn gysylltiedig â phlant, megis trafnidiaeth a datblygu economaidd. Ffafriwyd plygu rhaglenni, lle byddai rhaglenni prif ffrwd y llywodraeth yn cael eu 'plygu' i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae hyn yn dilyn yr agwedd yn rhaglen wrthdlodi arloesol Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cymunedau yn Gyntaf*.

[19] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) Dyfodol Teg i'n Plant, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

[20] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) Cynllun Gweithredu Tlodi Plant Cam 1, ar gael yn http://newydd.cymru.gov.uk/dsjlg/publications/childrenyoung/implementplanphase1/report?lang=cy

Mae cynllun gweithredu tlodi plant Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cynnwys cynigion i weithio'n fwy clos â llywodraeth leol. Mae Llywodraeth y Cynulliad nawr yncyllido cynllun peilot awdurdod lleol corfforaethol a fydd yn gweithio gydag Achub y Plant, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac aelodau eraill Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru.

Mae'r rhaglen lywodraethu fwy diweddar, Cymru'n Un, yn ail-ddatgan y nod o haneru tlodi plant erbyn 2010 a'i ddileu'n llwyr erbyn 2020. Mae'n cynnwys rhai camau gweithredu arfaethedig newydd, gan gynnwys:

- Bond Plant ar gyfer pob plentyn sy'n dechrau'r ysgol

- gosod dyletswydd ar asiantaethau cyhoeddus i ddangos eu cyfraniad at roi terfyn ar dlodi plant

- llwybr at undeb credyd i ddisgyblion ym mhob ysgol uwchradd yng Nghymru erbyn 2011, ac undebau credyd yn derbyn taliadau cyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd ar drywydd Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol dan y Ddeddf Llywodraeth Cymru newydd, gan awgrymu y gallai roi pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol fynnu bod awdurdodau lleol yn gwneud mwy i fynd i'r afael â thlodi plant, yn enwedig 'profi' pob polisi i weld beth fyddai ei effeithiau ar dlodi plant. Disgwylir i'r Gorchymyn Cymhwysedd hwn gael ei ystyried gan ddau Dŷ San Steffan ddechrau 2008.

Yn ogystal, mae Llywodraeth newydd Cynulliad Cymru yn sefydlu grŵp arbenigol, dan gadeiryddiaeth Huw Lewis AC, i roi cyngor arbenigol, ar sail tystiolaeth; gan herio ac adrodd yn ôl i Lywodraeth y Cynulliad am gynnydd a wnaed tuag at ei thargedau tlodi plant trawsbynciol.

Er bod sawl rheswm i ganmol gweithrediadau Llywodraeth y Cynulliad yn mynd i'r afael â thlodi plant, nid oes dim un o'r polisïau diweddar nac arfaethedig i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru'n canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â thlodi plant difrifol. Ac eto, y plant yn y tlodi mwyaf difrifol, fel yr amlinellwyd yn gynharach, sydd mewn mwyaf o berygl oddi wrth effaith tlodi, a nhw yw'r rhai anoddaf eu cyrraedd.

Dadl y prosiect Syniadau Newydd hwn yw os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru i gwrdd â'i thargedau uchelgeisiol ond tra derbyniol o haneru tlodi plant erbyn 2010 a'i ddileu yn llwyr erbyn 2020 yna rhaid iddi deilwra rhai polisïau penodol i fynd i'r afael â'r rhwystrau a'r materion penodol y mae'r plant a'r teuluoedd hynny sy'n byw yn y tlodi mwyaf difrifol a mynych yn eu hwynebu.

5. Agweddau addawol

Comisiynodd tîm y prosiect adolygiad llenyddiaeth o ymyriadau llwyddiannus i fynd i'r afael â thlodi plant difrifol mewn rhannau eraill o'r DU, UDA ac Ewrop, mewn geiriau eraill, 'beth sy'n gweithio' mewn llefydd eraill o ran mynd i'r afael â'r rhwystrau penodol a wynebir gan aelwydydd â phlant dibynnol, sy'n byw yn y tlodi plant mwyaf difrifol. Mae copïau o'r adolygiad hwn ar gael, ar wahân, ar gais. Amlygodd yr adolygiad bedair thema allweddol a adlewyrchid yn y strategaethau mwyaf effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant.

Yr amlycaf, o bosib, yw strategaethau i gynyddu incwm teuluoedd o ba ffynhonnell bynnag, e.e. cynyddu trosglwyddiadau incwm i deuluoedd â phlant trwy'r system treth a budd-daliadau. Er mor bwysig yw trosglwyddiadau o'r fath, fel y rhan fwyaf o faterion na ddatganolwyd, nid ydynt o dan reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cynulliad Cymru ond y mae, fodd bynnag, rai trethi a budd-daliadau sydd yng nghylch gorchwyl Llywodraeth y Cynulliad, yn ogystal ag eraill y gallai chwarae rhan ynddynt. Mae yna ffyrdd eraill posibl y gall llywodraethau datganoledig a lleol gynyddu adnoddau aelwydydd, a dylid eu harchwilio.

Yr ail faes o ymyriad llwyddiannus oedd gwella mynediad at waith cyflogedig (i'r rheini sy'n gallu). Roedd yr adolygiad llenyddiaeth yn nodi ystod o wahanol agweddau ar 'o fudd-dal i waith' yn y DU a thramor, yn ogystal â thynnu sylw at y newidiadau sy'n digwydd ar hyn o bryd. Unwaith eto, nid yw'r maes hwn, at ei gilydd, wedi ei ddatganoli, ond mae yna botensial i Lywodraeth y Cynulliad ac eraill gefnogi llwybr teuluoedd i'r farchnad lafur.

Y trydydd maes a bennir yn y llenyddiaeth yw dysgu a sgiliau, nid yn gymaint fel maes lle bu ymyrryd yn llwyddiannus ond fel y mecanwaith allweddol sy'n cynnal anfantais o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae sylwebwyr di-ri yn cyfeirio at sut mae tlodi'n cael ei drosglwyddo o riant i blentyn, a'i ategu trwy'r system addysg.

Ac yn olaf, nodasom fod darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ar gyfer y rhai mwyaf anghenus a'r mwyaf anodd eu cyrraedd yn hanfodol o ran mynd i'r afael â thlodi plant difrifol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, tai, hamdden a gwasanaethau cymdeithasol. Mae teuluoedd mewn tlodi'n debygol o fod yn fwy dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus ond mae ansawdd gwasanaethau'n debygol o fod yn is. Nid yw nac yn ddymunol nac yn ymarferol, bob tro, i ddarparu gwasanaethau 'arbennig' i fynd i'r afael â thlodi plant; yn hytrach, mae angen addasu (neu blygu) gwasanaethau prif ffrwd i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r problemau a wynebir gan deuluoedd sy'n wynebu anfantais lluosog.

Er mwyn hwyluso darllen, mae'r rhesymoliad dros gynnwys pob un o'r meysydd hyn wedi ei nodi yn yr adran isod, ynghyd â manylion pellach am bolisïau cyfredol.

Er mwyn archwilio goblygiadau'r dadansoddiad ystadegol a amlinellir yn adran 3 o'r adroddiad a'r agweddau posibl a bennwyd, trefnodd tîm y prosiect seminar hanner diwrnod lle gwahoddwyd arbenigwyr blaenllaw yn y maes i ddatgan eu barn a'u harbenigedd, ar sail 'rheol Tŷ Chatham'.

Dechreuodd y seminar gyda chyflwyno'r prosiect, crynodeb o'r pwyntiau allweddol a oedd yn deillio o ddadansoddi data, a 'chyfeiriadau' yn deillio o'r adolygiad llenyddiaeth. Rhannodd y cyfranogwyr wedyn yn bedwar grŵp ar wahân, bob un yn trafod un o'r themâu a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth, o rhwng 6 ac 8 o bobl ym mhob grŵp (er i'r cyfranogwyr yn y grwpiau ar wneud y mwyaf o incwm a helpu pobl at waith gytuno i gyfuno eu hymdrechion). Recordiwyd y trafodaethau ar dâp, er mwyn procio'r cof ac hefyd, gwnaed nodiadau o'r pwyntiau allweddol, ac adroddwyd yn ôl ar y rhain i sesiwn llawn byr.

Bu'r seminar yn gynhyrchiol iawn, a chynhyrchwyd nifer sylweddol o syniadau newydd a chynigion i wella syniadau cyfredol. Yn sicr, bydd yr holl syniadau hyn angen eu datblygu ymhellach yn sylweddol, gan eu mireinio a'u treialu os ydynt i gael eu gweithredu ond, er hynny, maent yn cynnig ffordd ymlaen a allai fod yn gynhyrchiol iawn.

5.1 Egwyddorion cyffredinol

Cododd sawl cyfyng-gyngor o'r trafodaethau, a'r rheini'n digwydd nid yn unig yng nghwrs mynd i'r afael â thlodi plant ond mewn meysydd polisi eraill hefyd. Mae angen trin a thrafod y cyfyng-gynghorion hyn ymhellach.

Yn gyntaf, nododd y cyfranogwyr angen mawr am gydlynu polisi a gweithredu yn well. Tynasant sylw at y bylchau polisi a allai, ac yn wir a oedd wedi, codi rhwng polisi Whitehall a Llywodraeth y Cynulliad (e.e. ar ofal plant) a'r peryglon yr oedd y bylchau hynny'n eu golygu i blant mewn tlodi difrifol. Yr un mor bwysig, tynnodd y cyfranogwyr sylw at yr angen i gydlynu polisïau o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru (e.e. rhwng addysg a chyfiawnder cymdeithasol) yn ogystal â sicrhau cysylltu effeithiol rhwng Llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol. Er bod llywodraeth 'ddi-dor' yn anthem ym mhob maes bron y dyddiau hyn, mae'n arbennig o bwysig o ran mynd i'r afael â thlodi plant oherwydd natur ddyrys y pwnc ac oherwydd mai'r rhai sy'n dioddef waethaf - plant eu hunain - yw'r lleiaf abl i herio gwrthddywediadau a darpariaeth wael.

Yr ail gyfyng-gyngor oedd y ddadl rhwng darpariaeth gyffredinol a thargedu. Roedd cyfranogwyr y seminar yn galw am dargedu polisïau a darpariaeth yn fwy effeithiol ar gyfer plant mewn tlodi difrifol. Cydnabuwyd, er gymaint i'w groesawu yw darparu gwasanaeth am ddim yn gyffredinol ar gyfer pob plentyn oherwydd ei fod yn lleihau'r stigma o fod yn dlawd, fe allai, ar y llaw arall, fod yn ddrud iawn a gallai, hyd yn oed, arallgyfeirio adnoddau o wasanaethau eraill heb ddod â budd penodol i blant tlotaf Cymru. Roedd cyfranogwyr yn poeni nad targedu daearyddol, bob amser, yw'r targedu mwyaf effeithiol, gan nodi bod 40 y cant o blant mewn tlodi'n byw y tu allan i ardaloedd a dargedwyd gan Gymunedau yn Gyntaf, er enghraifft.

Roedd y trydydd cyfyng-gyngor yn ymwneud ag amrywiaeth leol rhwng gwahanol rannau o Gymru. Ar y naill law, roedd y cyfranogwyr yn ymwybodol iawn o'r angen am flaenoriaethau lleol i gwrdd ag anghenion lleol a'r buddiannau niferus a allai ddod yn sgîl penderfynu ynglŷn â gwasanaethau ar lefel leol. Ar y llaw arall, nid oeddent wedi'u hargyhoeddi bod unrhyw resymoliad ystyrlon dros, er enghraifft, y gwahaniaethau sylweddol rhwng pa mor gyflym yr oedd hawliadau'r Budd-dal Tai newydd yn cael eu gweinyddu ledled Cymru, nac amrywiaethau cyffelyb yn

argaeledd grant gwisg ysgol a darparu gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion. Un awgrym oedd y dylai'r 'safonau gwasanaeth' a gynigiwyd yn natganiad diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â gwasanaethau llywodraeth leol[21] gynnwys cyfeiriad penodol at wasanaethau lleol allweddol a oedd yn berthnasol i blant yn byw mewn tlodi difrifol.

5.2 Gwneud y mwyaf o incwm aelwyd

Boed incwm teulu'n deillio o enillion neu fudd-daliadau neu gyfuniad o'r ddau, nododd yr adolygiad llenyddiaeth bwysigrwydd polisïau gwneud y mwyaf o incwm aelwyd ar gyfer aelwydydd y plant tlotaf. Mewn teuluoedd lle mae rhieni mewn gwaith, gellir gwneud y mwyaf o incwm trwy gynyddu enillion aelodau'r teulu, e.e. trwy godi lefel yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a sicrhau ei fod yn cael ei orfodi. Gellir cynyddu incwm hefyd trwy amrywiol 'drosglwyddiadau arian' h.y. y budd-daliadau a'r credydau y gellir eu talu i deuluoedd sydd mewn gwaith a'r rhai sydd heb waith.

Mae lefel amrywiol fudd-daliadau allan o waith (megis Budd-dal Analluedd, Lwfans Ceiswyr Gwaith ac ati) a chredydau mewn gwaith (yn benodol Credydau Treth Gwaith), yn ogystal â sut y cânt eu gweinyddu, yn faterion i Lywodraeth y DU. Mae newidiadau posibl i lefel a gweinyddiaeth y budd-daliadau hyn, felly, y tu allan i gylch gorchwyl yr astudiaeth hon. Yn yr un modd, mae lefel yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'i orfodaeth yn faterion na ddatganolwyd.

Fodd bynnag, ceir nifer o gamau y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru eu cymryd er mwyn helpu i gynyddu incwm teuluoedd. Mae polisïau gwneud y mwyaf o incwm y tynnwyd sylw penodol atynt fel rhai sydd werth eu hystyried ymhellach yn cynnwys y canlynol:

Cynyddu nifer y bobl sy'n derbyn budd-daliadau mewn-gwaith

Yn 2003, disodlwyd Credyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio gan Gredyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant, ar ôl iddi hithau, yn ei thro, ddisodli Credyd Teulu. Cynlluniwyd credydau treth i godi teuluoedd â rhieni mewn swyddi cyflog isel dros y trothwy tlodi. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae o leiaf un rhiant yn gweithio yn 38% o deuluoedd sy'n byw mewn tlodi difrifol yn y DU. Mae adroddiad Sefydliad Bevan a'r Sefydliad Polisi Newydd ar dlodi mewn-gwaith yng Nghymru [22] yn nodi bod tlodi mewn-gwaith yn dal yn fater arwyddocaol yng Nghymru. Canfuant, er enghraifft, bod dros chwarter gweithlu Cymru ar gyflog isel (yn ennill llai na £6.50 yr awr).

Mae ein hadolygiad llenyddiaeth yn nodi bod manteisio ar drosglwyddiadau arian sydd ar gael yn amrywio yn ôl strwythur aelwyd, ardal ddaearyddol, gwybodaeth am

[21] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Rhannu Cyfrifoldeb: cyfraniad Llywodraeth Leol at wella bywydau pobl, Datganiad Polisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gael yn http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/sharedresponsibility/?lang=cy

[22] Kenway, P. & Winckler, V. (2006) *Dreaming of £250 a week*: astudiaeth gwmpasu o dlodi mewn-gwaith yng Nghymru, Papur Polisi 10. Tredegar: Sefydliad Bevan.

fudd-daliadau a budd ‘tybiedig’ i’r hawlydd, gan awgrymu y gallai cynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a lleihau 'costau trafodion' gyfrannu at gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio arnynt.

Mae opsiynau i’w hystyried yn cynnwys:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o Gredyd Treth Gwaith trwy ymgyrch wybodaeth gyhoeddus wedi'i thargedu at rieni, gan gynnwys
  - darparu gwybodaeth trwy gyfrwng ymwelwyr iechyd a meddygfeydd
  - darparu gwybodaeth trwy gyfrwng meithrinfeydd, ysgolion a grwpiau chwarae
  - darparu gwybodaeth trwy gyfrwng pacedi tâl sector cyhoeddus
  - darparu gwybodaeth i bobl sy’n derbyn Budd-dal Tai a budd-dal y dreth gyngor, neu deuluoedd sydd â’r hawl i brydau ysgol am ddim.

- Darparu cefnogaeth bersonol i ymgeiswyr Credyd Treth Gwaith drwy:
  - gefnogaeth dymor hwy gan ymgynghorwyr personol i rieni sy’n canfod gwaith drwy Ganolfannau Gwaith/rhaglenni’r Fargen Newydd;
  - sicrhau bod rhwydwaith o gyngor hawliau lles ac arian, gyda’r adnoddau priodol, ar gael ledled Cymru trwy gyfuniad o unedau hawliau lles a chanolfannau Cyngor Ar Bopeth.

Cyngor a chefnogaeth i leihau baich dyledion

Nid dim ond ar y rheini sydd mewn tlodi difrifol y mae gorddyledusrwydd yn effeithio, ond ar y grŵp hwn mae’n effeithio fwyaf difrifol. Er bod rheoli benthyca yn fater na ddatganolwyd, mae'n bosib bod camau y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru eu cymryd i leihau baich gorddyledusrwydd.

Mae opsiynau’n cynnwys:

- gwella gwasanaethau cyngor arian sydd ar gael i rieni, yn enwedig ‘taeniad’ undeb credyd

- mynd i’r afael â benthyca anghyfreithlon

- ystyried ffyrdd lle gallai effaith baich dyled teuluoedd gael ei leihau pe baent yn symud o fudd-daliadau i gyflogaeth (e.e. dileu dyledion)

- mabwysiadu siarter ar gasglu dyledion.

Gweinyddu Budd-dal Tai yn fwy effeithiol [23]

Mae gweinyddu Budd-dal Tai (Dangosydd Perfformiad Allweddol dan Gynllun Gwella Cymru) yn amrywio’n aruthrol ymhlith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae’r budd-dal hwn yn aml yn gweithredu fel rhwyd diogelwch i deuluoedd yn ystod

[23] Mae Budd-dal Tai i gael ei ddisodli gan Lwfans Tai Lleol ar gyfer tenantiaid preifat ym mis Ebrill 2008.

cyfnodau o newid (e.e. i mewn ac allan o waith), ac eto mae ystadegau'n dangos bod amrywiadau arwyddocaol yng Nghymru o ran pa mor gyflym y mae awdurdodau lleol yn prosesu hawliadau; gan amrywio o 55.66 o ddiwrnodau i brosesu hawliau newydd yn Rhondda Cynon Taf i ychydig dan 24 o ddiwrnodau ym Mlaenau Gwent.[24] Byddai gwella gweinyddiaeth Budd-dal Tai, gan gynnwys yr amser a gymerir i brosesu hawliadau newydd, yn gymorth mawr i deuluoedd â phlant yn y tlodi mwyaf difrifol, a gallai hwn fod yn faes lle gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut i wella perfformiad lleol.

Mae opsiynau'n cynnwys:

- Pwyso am wella'n ddramatig y ffordd y gweinyddir Budd-dal Tai (a budd-dal y dreth gyngor) gan awdurdodau lleol i sicrhau bod ymgeiswyr newydd a'r rheini sy'n newid eu hamgylchiadau yn cael cymorth yn hytrach na chosb. Bydd profiad peilot Adran Gwaith a Phensiynau/ Cyllid a Thollau EM/Cynllun Gwaith ar y Cyd awdurdod lleol sy'n cael ei dreialu ym Merthyr Tudful ar hyn o bryd â gwersi pwysig i'w dysgu ynghylch hyn.[25]

- Dylai'r cyfnod pedair wythnos o 'ymryddhau' o Fudd-dal Tai pan fydd pobl yn symud o fudd-daliadau i gyflogaeth llawn amser gael ei gynnig i bobl wrth symud i unrhyw fath o gyflogaeth (nid dim ond llawn amser) a phara am gyfnod hwy.

- mae sgôp ar gyfer cynyddu budd-daliadau tai a'r dreth gyngor a delir i aelwydydd â phlant.

Lleihau costau tai

Mae teuluoedd tlawd yn talu premiwm am nifer o wasanaethau sylfaenol, gan gynnwys nwy a thrydan, bancio a chredyd. Amcangyfrifir bod costau ychwanegol, er enghraifft, mesuryddion talu-ymlaen-llaw, benthyciadau stepen-drws, codi arian parod o beiriannau sy'n codi ffi, ffonau talu-wrth-sgwrsio ayb gymaint â £1,000 y flwyddyn. Mae hyn oddeutu 9 y cant o incwm gwario teulu cyfartalog ei faint.[26] Gellid dadlau ei bod hi'n haws cynyddu incwm teulu 9 y cant trwy ddileu'r premiwm tlodi na chynyddu budd-daliadau neu dâl.

Yn ogystal, mae'n bosib bod teuluoedd tlawd yn methu â manteisio ar wasanaethau neu weithgareddau am ddim yr honnir eu bod ar gael yn lleol, e.e. nofio am ddim, oherwydd y costau sydd ynghlwm wrth eu defnyddio.

---

[24] Dangosyddion Perfformiad Allweddol Uned Data Llywodraeth Leol 2005-06 http://dissemination.dataunitwales.gov.uk/webview/index.jsp

[25] Adran Gwaith a Phensiynau, *Housing Benefit and Council Tax Benefit General Information Bulletin, HB/CTB G14/2007* 7 Medi 2007 i'w lwytho oddi ar http://www.dwp.gov.uk/housingbenefit/news/newsletter/bulletins/2007/g14-2007.pdf

[26] Achub y Plant / Cymdeithas Lles Teulu (2007). *The Poverty Premium: how poor households pay more for essential goods and services*, Llundain: SCF / FWA

Mae opsiynau'n cynnwys:

- Targedu a gweinyddu'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn well, fel ei fod yn targedu tlodi tanwydd, gan gynnwys er enghraifft, cymorth i bobl sy'n byw mewn tai annodweddiadol a thai ag ynni aneffeithlon.

- Darparu cludiant cyhoeddus am ddim i blant;

- Darparu prydau ysgol canol-dydd yn gwbl rhad ac am ddim i bob plentyn, fel y cynllun peilot cyfredol yn yr Alban. Byddai hyn yn sicrhau pryd maethlon i bob plentyn, a chael gwared â stigma prydau am ddim;

- Ehangu'r grant gwisg ysgol i gynnwys:

    - grantiau tuag at brynu gwisg ysgol yn flynyddol wrth i'r plentyn dyfu (nid dim ond pan fydd yn mynd i flwyddyn 7)
    - grantiau tuag at brynu gwisg ysgol gynradd
    - gweinyddu'r grant yn fwy effeithiol, gan gynnwys ei dalu *cyn* dechrau tymor yr ysgol
    - hyrwyddo'r grant yn well a rhoi mwy o gyhoeddusrwydd iddo.

- Dylai cymhwyso ar gyfer derbyn budd-daliadau sy'n amodol ar brawf modd (e.e inswleiddio'r cartref, grantiau gwisg ysgol, prydau ysgol am ddim):
    - fod yn gyson ar draws pob cynllun;
    - a bod yn seiliedig ar asesiad tryloyw o'r 'trothwy tlodi' (e.e. 75 y cant o'r canolrif incwm).

- Archwilio'r potensial, gyda darparwyr ynni, i leihau'r 'premiwm tlodi' a delir gan aelwydydd incwm isel.

Cyfeiriodd y grŵp hefyd (ond heb archwilio ymhellach) at y posibilrwydd o symleiddio'r system fudd-daliadau'n fwy cyffredinol, a'r mater o gyflwyno 'gwarant incwm teulu' a fyddai'n 'ategu' incwm teulu at y trothwy tlodi a dileu tlodi incwm plant yr un pryd. Mae sgôp i Lywodraeth y Cynulliad archwilio materion megis proses cais sengl am fudd-daliadau sy'n ymwneud â chyflogaeth a Budd-dal Tai (fel yr un a dreialir ar hyn o bryd ym Merthyr Tudful), a sefydlu meini prawf cymhwyso cyffredinol a phrawf sydd ei angen ar gyfer derbyn budd-daliadau sy'n amodol ar brawf modd (e.e. tystiolaeth o incwm). Mae'r mater o hawl i archwiliad budd-daliadau hefyd yn hollbwysig. Dylai archwiliad o'r fath fod ar gael i bob aelwyd ledled Cymru, a hynny yn hawdd, ac am ddim.

5.3 Llwybrau at gyflogaeth

Fel y dangoswyd yn adran 3, mae'r cysylltiad rhwng tlodi plant difrifol a bod heb waith yn arbennig o gryf. Mae dau draean y plant nad yw eu rhiant neu rieni yn gweithio yn byw mewn tlodi difrifol. O'r herwydd, mae helpu'r rhieni hynny sy'n gallu gweithio i ganfod a chadw swydd yn hollol ganolog i leihau achosion o dlodi plant difrifol.

Cymorth i ddychwelyd at waith [27]

Mae rhaglenni cyfredol a redir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i helpu pobl i gael gwaith yn seiliedig ar amgylchiadau'r un sy'n hawlio budd-dal, gan adlewyrchu eu hoedran (e.e. y Fargen Newydd ar gyfer y rheini sy'n 25 a throsodd), strwythur yr aelwyd (e.e. y Fargen Newydd ar gyfer Unig Rieni) neu statws budd-dal (e.e. Llwybrau at Waith ar gyfer hawlwyr Budd-dal Analluedd (a budd-daliadau 'anweithgar' eraill) mewn rhai ardaloedd. Nid yw'r rhaglenni'n ystyried a yw aelwyd y cleient yn dlawd ac, heblaw bod yr hawliwr yn hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith, nid yw hi'n orfodol cymryd rhan yn y rhaglenni. Mewn geiriau eraill, nid oes unrhyw ofyniad ar unig rieni a rhieni cwpl sy'n methu â gweithio oherwydd iechyd gwael i fynd ati'n weithredol i chwilio am waith; gallant barhau i fod allan-o-waith a byw mewn tlodi difrifol.

Mae'r trefniadau hyn yn debygol o newid i'r dyfodol, yn dilyn cyhoeddi Papur Gwyrdd Diwygio Lles Llywodraeth y DU,[28] gyda newidiadau'n debygol o gynnwys gofyniad ar unig rieni sy'n derbyn budd-dal i fynd ati'n weithredol i chwilio am waith unwaith y bydd eu plentyn ieuengaf yn 12 oed, a hynny'n dechrau ym mis Hydref 2008 (a 7 oed o 2010 ymlaen). Ategid y gofyniad i ddod o hyd i waith gan gosbau e.e. dal budd-dal yn ei ôl.

Er bod y pwyslais ar bwysigrwydd gwaith fel y prif lwybr allan o dlodi yn cael ei groesawu'n gyffredinol yn ein trafodaethau, roedd pryder sylweddol ynglŷn â'r ddarpariaeth gofal plant annigonol sydd ar gael i gefnogi rhieni sy'n dechrau gwaith (gan gynnwys gofal yn ystod gwyliau ysgol ac ar gyfer y rheini sy'n gweithio oriau annodweddiadol). Teimlwyd yn gryf na ddylid cosbi plant trwy aberthu budd-dal os nad yw rhieni'n cydymffurfio â gofynion sydd ynghlwm wrth ei dderbyn, ac na ddylai'r pwysau ar rieni (yn enwedig unig rieni) i ymgymryd â gwaith cyflogedig fod gymaint nes golygu nad oedd gan rieni amser mwyach i rianta'n effeithiol. Ni ellir gor-bwysleisio gymaint o fethiant polisi fyddai hi pe bai mesurau i fynd i'r afael â thlodi plant trwy annog mwy o rieni i weithio yn arwain at gefnogaeth rhiant gwannach i'r plant hynny.

Yr oedd nifer o ffyrdd lle teimlid y gellid datblygu ymhellach gefnogaeth i rieni i ddychwelyd at waith, gan gynnwys:

- darparu mynediad brys at gymorth i ganfod gwaith neu hyfforddiant i aelwydydd mewn perygl o dlodi difrifol tra'n derbyn budd-dal (yn y bôn, pob aelwyd â phlant).

- newid manyleb rhaglenni o fudd-dal i waith fel eu bod yn cefnogi cyflogaeth sy'n gynaliadwy ac yn cydnabod anghenion rhieni trwy:

[27] Mae'r term 'dychwelyd at waith' yn cynnwys dod o hyd i waith yng nghyswllt oedolion sydd, o bosib, erioed wedi gweithio.

[28] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2007) *Ready for Work*: *full employment in our generation*, Cm 7290, Llundain: Llyfrfa Ei Mawrhydi

- roi cefnogaeth i holl deulu'r hawlydd, ac nid dim ond i'r cleient ei hun
- rhoi cefnogaeth am gyfnod hwy er mwyn paratoi rhieni ar gyfer dychwelyd at waith e.e. codi eu hyder a'u hunan-barch ar ôl blynyddoedd o ofalu am blant a byw mewn tlodi difrifol
- caniatáu cyfnod hwy ar gyfer lleoli rhieni mewn gwaith, e.e. canfod gwaith sy'n cydweddu â chyfrifoldebau rhianta
- rhoi cefnogaeth i rieni ar ôl iddynt ganfod gwaith am fwy na'r 13 wythnos cyfredol, e.e. pan fydd hi'n anodd cyfuno gwaith a rhianta, megis pan fydd plentyn yn sâl neu yn ystod gwyliau ysgol.

- cynyddu canran yr ymgynghorwyr personol sy'n arbenigo ar helpu cleientiaid ag anabledd ac, yn enwedig, â hanes o salwch meddwl neu gamddefnyddio sylweddau.

- darparu 'cerrig camu' at waith, a fyddai'n annog rhieni i weithio am nifer yr oriau sy'n addas ar gyfer eu hanghenion, os nad ydynt yn gallu gweithio'r isafswm o 16 awr sydd ei angen i newid o fyw ar fudd-daliadau i fyw ar enillion a chredydau treth (e.e. oherwydd iechyd gwael).

- dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau gydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod ei Chronfa Ardaloedd o Amddifadedd (sy'n darparu cefnogaeth o fudd-dal i waith mewn wardiau a dargedwyd) yn canolbwyntio ar dlodi plant ac yn cysylltu â Chymunedau yn Gyntaf.

Cyfrifoldeb yr Adran Gwaith a Phensiynau yw manyleb rhaglenni o fudd-dal i les y brif ffrwd, ond mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol y gallu i ategu ac ychwanegu at gynlluniau'r Adran (e.e. *Want2Work*) gyda'u rhaglenni eu hunain, neu gydag ychwanegiadau at raglenni'r Adran.

Gofal plant

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mynd ati'n weithredol i hyrwyddo gwell darpariaeth gofal plant, a chyn hir, bydd hi'n ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gofal plant digonol yn cael ei ddarparu. Mae *Dechrau'n Deg* yn cynnig gofal plant am ddim i blant bach 2 oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, ond mae'r gofal yn rhan amser, ac nid yw bob amser yn cydweddu â threfniadau gwaith (gweler tudalen 39 am fwy o wybodaeth am *Dechrau'n Deg*).

Roedd y cyfranogwyr yn y seminar yn credu bod diffyg gofal plant yn rhwystr sylweddol rhag gweithio. Nid yn unig yr ymddengys bod prinder llefydd gofal plant, yn enwedig y tu allan i brif ganolfannau trefol Cymru, ond teimlwyd hefyd bod prinder gofal plant a oedd yn cwrdd ag anghenion penodol, gan gynnwys:

- gofal plant sy'n ddigon hyblyg i gwrdd ag anghenion rhieni â phatrymau gwaith an-nodweddiadol
- gofal plant cyn/ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol

- gofal plant ar gyfer plant ag anableddau.

Mae prinder gofal plant addas a fforddiadwy'n taro rhieni sy'n dychwelyd at waith yn arbennig o galed, am ei bod hi'n bosib nad ydynt wedi cael profiad blaenorol o ganfod gofal plant addas a'u bod yn debygol o fod yn dechrau swyddi lefel-mynediad, gyda thâl cymharol isel.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau wrthi ar hyn o bryd yn cynnal arolygon ynglŷn â'r ddarpariaeth gofal plant, ac fe asesir pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gyfredol, ac mae'n rhaid i awdurdodau wneud cynlluniau i sicrhau bod anghenion yn cael eu bodloni. Mae opsiynau ar gyfer gwella gofal plant i rieni sy'n dychwelyd at waith yn cynnwys:

- gwella rôl ysgolion i gynnwys gofal plant addas ar gyfer plant cyn oed meithrin (meithrinfeydd) a gofal helaethach ar ôl ysgol

- annog cyflogwyr mawr yn y sector cyhoeddus i ddarparu gofal plant ar gyfer eu holl staff (nid dim ond rheolwyr a gweithwyr proffesiynol), gan gynnwys gofal plant sy'n cyfateb i batrymau gwaith

- ehangu 'meithrinfeydd symudol'

- helpu rhieni i sefydlu 'cylchoedd cymdeithasol' gyda rhieni eraill er mwyn bod yn gefn i'w gilydd

- annog neiniau a theidiau a gofalwyr teulu eraill i gofrestru fel gwarchodwyr er mwyn gwella ansawdd a lefel y gofal plant sydd ar gael, tra'n galluogi rhieni sy'n gweithio i hawlio costau gofal plant yr un pryd, trwy Gredyd Treth Gwaith

- brandio a marchnata gofal plant yn effeithiol; gwasanaeth gwybodaeth a chysylltiadau cryfach gyda darparwyr cyflogaeth.

Pwysleisiodd y grŵp a fu'n trafod hyn hefyd pa mor hanfodol bwysig oedd cludiant cyhoeddus effeithiol er mwyn cael pobl at waith, ond ni chafwyd digon o amser i drafod opsiynau posibl.[29]

5.4 Addysg i weddnewid cyfleoedd bywyd

Mae cyswllt anorfod rhwng tlodi plant ac addysg. Mae rhagolygon addysgol plant yn adlewyrchu anfanteision eu teuluoedd, gyda phlant tlawd yn llai tebygol o ennill cymwysterau da yn yr ysgol. Ymhellach, ceir tystiolaeth ysgubol[30] bod addysg yn dylanwadu'n gryf ar pa mor debygol yw'r plentyn o gael swydd a chyflog i'r dyfodol.

[29] Gweler, er enghraifft, Winckler, V. (2007) *Accessibility for all: transport and social inclusion in Wales*. Tredegar: Sefydliad Bevan.

[30] *Machin, S. a McNall, S. (2006), Education and child poverty - A literature review*, Sefydliad Joseph Rowntree: http://www.jrf.org.uk/bookshop/eBooks/9781859354773.pdf 2006

Mae gwella cyrhaeddiad addysgol plant felly'n ffordd allweddol o allu chwalu'r cylch tlodi yn y tymor canolig i hir.

Addysg ac Anfantais

Ffeithiau Allweddol

- Mae canran y plant 11 oed mewn ysgolion lle mae dros draean y plant yn derbyn prydau ysgol am ddim, nad ydynt yn cyrraedd lefel 4 yng Nghyfnod Allweddol 2 mewn Mathemateg, Cymraeg a Saesneg, wedi gostwng yn sylweddol er 1997. Fodd bynnag, oherwydd bod y gostyngiad hwn hefyd wedi digwydd i'r un graddau mewn ysgolion llai difreintiedig, mae'r gyfradd fethu mewn ysgolion difreintiedig yn parhau'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd.

- Yn yr un modd, mae canran y myfyrwyr mewn ysgolion lle mae dros draean y disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim, nad ydynt yn cael pump neu ragor o TGAU da, wedi gostwng yn sylweddol er 1997, gan ddisgyn o 59% ym 1994-95 i 49% yn 2003-4. Fodd bynnag, fel ag sy'n wir gyda chyrhaeddiad yn 11 oed, mae hwn yn parhau'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd. Ymhellach, er bod y bwlch rhwng ysgolion difreintiedig a'r cyfartaledd wedi lleihau rhwng 1997 a 2000, mae wedi aros yn bur sefydlog ers hynny.

- Ar lefel y DU, er bod disgyblion yng Nghymru yn gwneud yn well na rhanbarthau Lloegr yn 11 oed, mae canran y disgyblon sy'n cael llai na phump TGAU yn parhau yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr, yn bennaf oherwydd bod canran ystyfnig o uchel o ddisgyblion (7.5%) dal i fethu â chael unrhyw TGAU.

Er bod strategaeth tlodi plant Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi nifer o gamau yr oedd angen eu cymryd ym maes addysg, nid oedd y cynllun gweithredu a ddilynodd yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu. Yn ein seminar, y gred gyffredinol, er cystal bwriadau polisïau blynyddoedd cynnar ac addysg Llywodraeth y Cynulliad a ddeilliodd o sylfaen dystiolaeth gref o 'beth sy'n gweithio', roedd hi'n amhosib dweud (ar hyn o bryd) a oeddent yn cyfrannu at leihau tlodi plant ar lawr gwlad ai peidio.

Casgliad allweddol o drafodaeth yr arbenigwyr felly oedd y dylai camau gweithredu ym maes addysg:

- Fod yn rhan ganolog o gynllun gweithredu newydd ym maes tlodi plant, i gynnwys targedau a cherrig milltir ystyrlon a mesuradwy.[31] Yr oedd consensws ynglŷn â'r angen i gael 'cyrch go iawn' ar addysg a dysgu.

- Cael eu gweld fel cyfrifoldeb a rennir gan wahanol bobl neu asiantaethau e.e. rhieni, gwaith ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol, ac nid dim ond yn gyfrifoldeb ysgolion. Mae gan weithgareddau pobl ifanc, yn enwedig, y potensial

[31] Er bod datganiad polisi'r Cynulliad *Gwlad sy'n Dysgu 2* yn cynnwys targedau penodol, nid oedd y rhain wedi eu cysylltu'n benodol â mynd i'r afael â thlodi plant.

i gynnig amgylcheddau dysgu gwahanol i blant,[32] a gellid rhoi blaenoriaeth iddynt yn Cymunedau Nesaf.

Croesewid y potensial ar gyfer agweddau gwirioneddol di-dor a gynigid gan y cynllun sengl newydd. Gallai hyn gynnwys targedau cyffredin ymhlith asiantaethau statudol allweddol i wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig.

Yn y tymor hwy, lleisiwyd barn bod angen i ysgolion newid yn radical, a bod yn fwy hyblyg, yn fwy ymatebus ac yn fwy sensitif i anghenion pob plentyn unigol (nid dim ond y rhai mwy academaidd eu natur) yn ogystal ag i anghenion cymdeithas. Roedd ein cyfranogwyr yn teimlo'n gryf y dylai ysgolion gael dalgylchoedd cymdeithasol-gymysg, er eu bod yn cydnabod bod polisïau 'dewis rhieni' yn gallu gwneud hyn yn anodd.

Mae angen brys am archwiliad manwl o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gynnydd plant yn yr ysgol ac mewn addysg a pha agweddau a allai weithio yng Nghymru i wella cyrhaeddiad addysgol plant rhwng 4 - 18 oed o deuluoedd incwm-isel. Yr ydym yn argymell bod hyn yn cael ei wneud yn destun Prosiect Syniadau Newydd i'r dyfodol - trwy ei rinwedd ei hun - yn wyneb dyfnder ac ehangder yr archwiliad. Yn y cyfamser, cyfeiriwn at astudiaeth ddiweddar ar ran y Grŵp Gweithredu Tlodi Plant [33] a dynnai sylw at wahanol agweddau[34] ar y bwlch addysg ym mywydau plant mewn tlodi, ac adroddiad cwmpasu a baratowyd gan yr Uned Pobl mewn Gwaith ar ran Achub y Plant[35].

Gwahaniaethau mewn datblygiad mewn plentyndod cynnar

Mae datblygiad ym mlynyddoedd cynnar bywyd yn cael effaith allweddol ar ddyfodol plant. Erbyn cyrraedd eu tair oed, mae plant o gefndiroedd llai breintiedig eisoes wedi syrthio ymhell y tu ôl eu cyfoedion o ran adnabod geiriau sylfaenol ac mewn cerrig milltir datblygiadol eraill ac mae dros chwarter y plant mewn tlodi ymhell dros flwyddyn y tu ôl i'r plentyn cyffredin, o ran bod yn barod ar gyfer yr ysgol.

Mae Llywodraethau dilynol y Cynulliad Cenedlaethol wedi gosod pwys mawr ar bwysigrwydd dysgu a chefnogaeth yn y blynyddoedd cynnar. Cyhoeddodd strategaeth tlodi plant 2005 £50 miliwn ychwanegol i'w dargedu at yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Datblygwyd y cynnig hwn wedyn i greu'r rhaglen *Dechrau'n Deg*, cynllun gan Lywodraeth y Cynulliad i redeg o 2007 i 2011 a thargedu cyllid at blant 0 - 3 oed sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'r

---

[32] Dim ond 14% o'r hyn y mae plentyn yn ei ddysgu sy'n digwydd mewn ysgolion, yn ôl Donald Hirsch (2007) *Experiences of Poverty and Educational Disadvantage,* Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree http://www.jrf.org.uk/knowledge/findings/socialpolicy/2123.asp

[33] Hirsch, D. (2007) *Chicken and egg: child poverty and educational inequalities, CPAG policy briefing* **http://www.cpag.org.uk/campaigns/education/EducationBriefing120907.pdf**

[34] Ni chynhwyswyd chweched – bylchau mewn mynediad at addysg uwch – am nad oedd yn rhan o'r drafodaeth.

[35] Holton, D. (2006) Education Scoping Paper for Save the children. Yr Uned Pobl Mewn Gwaith (heb ei gyhoeddi)

Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol, strategol yn ardal pob awdurdod lleol ledled Cymru yn derbyn cyllid i ddarparu gofal plant o safon uchel rhad ac am ddim, rhan amser ar gyfer plant bach dwy oed yn ogystal â gwasanaethau blynyddoedd cynnar seiliedig-ar-dystiolaeth, megis gwell cefnogaeth gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta.

Roedd grŵp trafod y seminar yn cydnabod y buddiannau sylweddol iawn y gellid eu gwireddu gan y rhaglen *Dechrau'n Deg* yn y tymor hir, ac er bod meysydd yn sicr lle gellid datblygu a gwella darpariaeth, ni chredid bod polisi a darpariaeth blynyddoedd cynnar angen gymaint o sylw brys ag addysg a dysgu dilynol plant o deuluoedd tlawd.

Y gagendor cynyddol yn ystod blynyddoedd ysgol

Unwaith iddynt gyrraedd y byd addysg, mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant tlawd a phlant eraill yn cynyddu. Mae canlyniadau llythrennedd gwael yn yr ysgol gynradd yn ffactor perygl cryf ar gyfer cyflawniad gwael yn nes ymlaen. Mae cyrhaeddiad plant o deuluoedd sy'n dibynnu ar brydau ysgol am ddim yn mynd yn gynyddol waeth yn ystod eu blynyddoedd yn yr ysgol, yn enwedig yn ystod y tair blynedd gyntaf yn yr ysgol uwchradd, pan fydd nifer o blant difreintiedig yn dechrau dieithrio oddi wrth y system ysgol. Erbyn iddynt fod yn 16, mae plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim dros un radd TGAU a hanner, ar gyfartaledd, y tu ôl eu cyfoedion. Yng ngeiriau Donald Hirsch, awdur adroddiad CPAG "mae'r system addysg yn methu yn ei thasg sylfaenol o roi cyfle cyfartal i lwyddo i bob plentyn".

Mae ymdrechion newydd ar droed yn awr yng Nghymru ac yn y DU i 'leihau'r bwlch' rhwng cyrhaeddiad addysgol plant mewn aelwydydd incwm-isel a phlant eraill, er enghraifft rhaglen RHAGORI Llywodraeth Cynulliad Cymru (sy'n dyrannu cyllid ychwanegol i gefnogi ymdrechion penodol ysgolion ac AALlau i godi lefelau cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig). Fodd bynnag, mae ffigurau'n dangos, er bod ymdrechion Cymru i leihau'r bwlch mewn ysgolion cynradd yn dwyn ffrwyth, bod tueddiadau ym maint y bwlch perfformiad ar lefel TGAU yng Nghymru yn llusgo y tu ôl i'r rheini yn Lloegr (gweler y blwch ar dudalen 37).

Nid yw hi'n glir beth yn union sy'n digwydd yn ystod blynyddoedd ysgol i ddifreinio plant o gartrefi sydd eisoes yn ddifreintiedig, gydag esboniadau posibl yn cynnwys diffyg hunan-barch a hunanhyder plant mewn tlodi. Er hynny, daeth y cyfranogwyr yn ein seminar i'r casgliad bod llawer eto y gellir ei wneud i helpu plant tlawd i ddal eu tir gyda chyfoedion mwy cefnog. Gallai hyn gynnwys:

- Cymhellion i ysgolion am lwyddo i leihau anghydraddoldebau o ran cyrhaeddiad. Dylid annog ysgolion i 'leihau'r bwlch' mewn cynnydd, gyda meini prawf yn cael eu hadlewyrchu yn y fframwaith arolygu. Dylid ystyried lleihau gwahaniaethau mewn cynnydd fel rhan anhepgor o'r 'gwerth ychwanegol' gan ysgolion, nid fel baich ychwanegol.

- Mwy o fuddsoddiad mewn arweiniad a rheolaeth ysgolion, ac mewn datblygiad proffesiynol athrawon o ran gwella perfformiad ymhlith plant difreintiedig.

- Mwy o gefnogaeth ariannol i ddatblygu Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned yng Nghymru.

- Mwy o rannu enghreifftiau o arferion da rhwng ysgolion, wedi ei sbarduno, o bosib, gan arolygiad arbennig gan Estyn.

- Mesurau i godi hyder a hunan-barch plant, gan gynnwys gwella rhaglenni llythrennedd emosiynol (e.e. SEAL - *social and emotional literacy*) sy'n datblygu sgiliau hanfodol megis arweinyddiaeth, symbyliad, ayb.

- Adnoddau a darpariaeth sylweddol ar gyfer cefnogaeth adfer i blant, gyda'r nod o sicrhau nad oes yr un plentyn yn gadael yr ysgol gynradd heb lefel llythrennedd a rhifedd sy'n briodol i'w oed.

- Codi ymwybyddiaeth ynglŷn ag effaith tlodi plant ar gyrhaeddiad ymhlith yr holl ysgolion, a gwreiddio pryder ynghylch cyfiawnder cymdeithasol yn ethos ysgolion.

- Rhoi ystyriaeth frys i ffyrdd ychwanegol o leihau nifer y plant sy'n datgysylltu eu hunain o fywyd ysgol yn ystod blwyddyn 7 - 10.

- Cyflwyno rhaglenni 'Dysgu Unigol', sydd wedi profi eu bod yn effeithiol.

Bu'r grŵp trafod hefyd yn ystyried mynd i'r afael ag anghenion addysgol grwpiau arbennig o agored i niwed, megis plant sy'n derbyn gofal a myfyrwyr Sipsiwn/Teithwyr. Er bod plant sy'n derbyn gofal wedi cael eu hystyried dros y 15 mlynedd diwethaf, teimlai'r grŵp mai ychydig o dystiolaeth oedd yna i brofi bod hynny wedi arwain at wella eu sefyllfa. Nododd y grŵp trafod bod gan ofalwyr maeth (sy'n edrych ar ôl y rhan fwyaf o blant sydd yng ngofal y wladwriaeth) eu hunain, yn aml gymwysterau dan lefel 2, a bod sefydlogrwydd lleoliadau'n parhau'n bryder sylweddol. Mae hyn yn fater y mae angen ei ystyried ymhellach. Yng nghyswllt Sipsiwn Teithwyr, cytunwyd bod angen mwy o adnoddau ar gyfer addysgu plant Sipsiwn Teithwyr.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, teimlwyd y gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran darparu addysg ar gyfer menywod ifanc sy'n cael babi pan fyddant dal yn oedran ysgol, a bod mwy o gydnabyddiaeth o'u hangen am addysg. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth i fenywod ifanc o'r fath yn ddarniog, yn ddaearyddol, ac nid oedd bob amser yn ddigonol ac mae angen gwneud mwy o waith ynglŷn â'r mater hwn.

Addysg ar gyfer Cyflogaeth - torri'r cylch

Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol yn effeithio'n uniongyrchol ar blant pan fyddant yn cyrraedd y farchnad lafur. Mae'r rheini sy'n gadael ysgol gydag ychydig neu ddim cymwysterau pan fyddant yn 16 oed â rhagolygon cyflogaeth gwael, ar y pryd (fel a ddangosir gan y niferoedd nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth) yn ogystal ag wedi hynny (nid yw 22% o bobl ifanc heb gymwysterau'n gweithio pan fyddant yn eu 20au hwyr o'i gymharu â dim ond 5% o raddedigion).

Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygiad o bobl ifanc nad oeddent mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, a bydd hyn yn awr yn sail i bolisi a

gweithredu ar gyfer symud ymlaen. Cyn ei gasgliadau, awgrymodd cyfranogwyr y grŵp trafod y dylai'r Cynulliad dargedu'r mannau du daearyddol lle'r oedd tlodi plant a pheidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn arbennig o amlwg, a chyflwyno mesurau er mwyn:

- codi dyheadau pobl ifanc - gan gynnwys cynyddu'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc e.e. trwy ddarpariaeth ieuenctid lawer gwell, a phrofiad gwaith a chyfarwyddyd gyrfa ystyrlon.

- darparu gwarant o gyflogaeth gyflogedig gyda hyfforddiant i bawb sy'n gadael yr ysgol.

- darparu cefnogaeth oedolion i ategu cyfraniad rhieni, a honno dros y tymor hir ac yn berthnasol i anghenion a dyheadau pobl ifanc.

Nid oes unrhyw amheuaeth bod y bwlch mewn cyfleoedd addysgol yn trosglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf. Ychydig o gymwysterau sydd gan blant tlawd; mae eu rhagolygon am swydd yn wael; ac mae eu plant eu hunain wedyn yn byw mewn tlodi. Dros yr 20 mlynedd diwethaf, daeth yn fwy anodd i blant o deuluoedd tlawd fod yn gymdeithasol symudol, a thorri'n rhydd o'r cylch hwnnw.[36]

5.5 Gwneud i wasanaethau cyhoeddus gyflawni ar ran teuluoedd sy'n wynebu anfantais lluosog

Er bod nifer o raglenni newydd o gefnogaeth wedi'u targedu at deuluoedd difreintiedig â phlant, awgryma ein hadolygiad llenyddiaeth nad yw'r cymorth a'r gefnogaeth yma bob amser yn cyrraedd y teuluoedd mwyaf anodd eu cyrraedd, sef. y teuluoedd hynny sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur, sy'n wynebu anfantais lluosog. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau penodol sydd wedi eu gorgynrychioli yn y boblogaeth tlodi plant difrifol, e.e. teuluoedd â rhieni sydd ag anabledd neu salwch tymor hir; teuluoedd o grwpiau lleiafrifoedd ethnig penodol; teuluoedd â rhieni sydd heb unrhyw gymwysterau addysgol. Ymhellach, nid yw'r cymorth a'r gefnogaeth yma bob amser yn cael eu targedu at y mater penodol o fynd i'r afael â thlodi plant.

Mae *Cymorth* yn rhaglen gyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a gynlluniwyd i gefnogi'r un partneriaethau strategol lleol i ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer plant a phobl ifanc agored i niwed rhwng 0 a 25 oed o fewn rhwydwaith o wasanaethau cyffredinol. Yn 2007-8, mae'r gronfa o dros £57 miliwn yn cefnogi oddeutu 1,000 o brosiectau sydd â'r nod benodol o wella cyfleoedd bywyd plant,

[36] Blanden, J. Gregg, P. a Machin, S. (Ebrill 2005) *Intergenerational Mobility in Europe and North America,* Llundain: Canolfan Perfformiad Economaidd Ysgol Economeg Llundain http://cep.lse.ac.uk/about/news/IntergenerationalMobility.pdf

pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.[37]

Goresgyn anfantais

Awgryma'r dystiolaeth nad yw trefniadau cyfredol yn llwyddo i wasanaethu teuluoedd sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf. Mae dyfyniad gan *ATD Fourth World*, mudiad gwrth-dlodi ar lawr gwlad, yn disgrifio'r rhwystrau'n glir iawn:

> "The most disadvantaged families – those who face the greatest difficulties – are often the very families who find it hardest to get the support they need. Reaching and involving those who are the most disadvantaged and vulnerable is the most vital, and also the most challenging, task facing all programmes to improve the wellbeing of children and families. Many services are created for disadvantaged families. Nevertheless, these families often struggle on their own to overcome the effects of poverty and social exclusion because service-providers find it so hard to reach them".

Mae teuluoedd difreintiedig yn debygol o:

- deimlo'n ynysig, anniogel a dioddef camwahaniaethu yn eu herbyn;
- dioddef o iechyd corfforol neu emosiynol gwael;
- bod â chyrhaeddiad addysgol isel;
- bod wedi cael profiadau anffodus gyda gwasanaethau statudol;
- byw mewn tlodi, gydag adnoddau ariannol prin iawn, tai gwael a llwybr cyfyngedig at gludiant.

ATD Fourth World: Not Too Hard to Reach
Ar gael yn: www.atd-uk.org/publications/Pub.htm

Goblygiadau'r adolygiad llenyddiaeth yw bod angen cymorth a/neu gefnogaeth unigol a hyblyg ar deuluoedd o'r fath dros gyfnod <u>*parhaus*</u> o amser, gan gofio na fydd cynnydd o reidrwydd yn unionlin. Ceir cyfnodau o gloffi, ac er mwyn sicrhau llwyddiant, mae'r ymchwil yn nodi y bydd angen ymdrechion niferus. Mae'n bosib y bydd darparu cefnogaeth a gwasanaethau hyblyg, unigol, wedi'u teilwra'n benodol yn drymach ar adnoddau yn y tymor byr, ond mae'r ymchwil wedi dangos mai dyna'r agwedd fwyaf effeithiol yn y tymor canolig a hwy.

Mae gwerthusiadau rhaglenni cefnogi teuluoedd, gan gynnwys *Cychwyn Cadarn* ac *On Track,* wedi dangos pwysigrwydd allweddol ymgysylltu yn ogystal â pha strategaethau sy'n 'gweithio' o ran darparu cefnogaeth ychwanegol i deuluoedd i gael llwybr at wasanaethau'r brif ffrwd. Nid ar ddarparu gwasanaethau cyfochrog y mae'r pwyslais, ond yn hytrach ar ddarparu rhywfaint o gymorth a chefnogaeth ychwanegol i blant a theuluoedd i gael llwybr at wasanaethau'r brif ffrwd.

37

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) Cymorth: Cronfa Cefnogi Plant a Phobl Ifanc Canllaw 2007-08

Mae nodweddion cyffredin sy'n sail i wasanaethau cefnogi teulu effeithiol [38] yn cynnwys:

- ymyrryd yn gynnar cyn i broblemau fwrw gwreiddiau
- cefnogaeth wedi'i thargedu o fewn fframwaith o wasanaethau cyffredinol;
- rhesymoliad clir ynghylch sut y bydd y gwasanaeth yn helpu
- adeiladu ar gryfderau yn ogystal â mynd i'r afael â gwendidau
- agweddau integredig, teulu-cyfan sy'n edrych ar yr ystod o wasanaethau y gellid bod eu hangen ar deulu, yn hytrach na mynd i'r afael ag un broblem neu anhawster mewn gwagle.

Mae gwerthusiad *On Track* wedi rhoi tystiolaeth ynghylch y rhaglenni a lwyddodd, a'r elfennau sy'n eu gwneud yn effeithiol[39]. Yr egwyddorion cyffredinol yw:

- rhaglenni sy'n hyrwyddo adeiladu partneriaethau effeithiol – statudol, gwirfoddol a chymunedol
- rhaglenni sy'n gweithredu o fewn gwasanaethau cyffredinol ond sy'n gallu rhoi cefnogaeth arbenigol/wedi'i thargedu
- rhaglenni sy'n pontio prif feysydd bywydau plant – iechyd, addysg, teulu a'r gymuned
- rhaglenni sy'n hyrwyddo'r ffactorau amddiffynnol ym mywydau plant.

Mae adroddiad diweddar y Tasglu Allgau Cymdeithasol *Think Family* yn nodi bod angen agwedd gydlynydol at anghenion teuluoedd allgaeedig ac maent yn annog gwasanaethau statudol i fabwysiadu agwedd o'r fath. Ac eto, mae darpariaeth statudol yn anhebygol o allu darparu'r pecyn cyflawn o gefnogaeth sydd ei hangen ar y rhai mwyaf allgaeedig. Mae helpu'r teuluoedd mwyaf difreintiedig yn gofyn am gefnogaeth sy'n seiliedig ar waith maes, creu ymddiriedaeth, cefnogaeth nad yw'n stigmateiddio a ffocws clir ar anghenion a dyheadau teuluoedd, yn hytrach nag ar nodau a thargedau a bennwyd o'r brig i lawr.

Ffactor allweddol y gwasanaeth yw ei fod yn cydnabod bod tlodi yn gymhleth ac yn aml-ffased, ac mae'n gweithio gyda rhieni a phlant, gyda'i gilydd, i fynd i'r afael â'r materion y maen nhw'n dweud sy'n allweddol yn eu bywydau. Gellid cael unrhyw nifer o'r rhain, ond maent yn cynnwys, ymhlith eraill: cyngor, cefnogaeth neu eiriolaeth yng nghyswllt tai, budd-daliadau, dyled, sgiliau a gwaith, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, ysgolion, gwasanaethau iechyd, llysoedd, yr heddlu a throseddau ieuenctid.

Er gwaethaf yr holl dystiolaeth rymus hon, rhoddodd cyfranwyr ein seminarau enghreifftiau niferus lle nad oedd y teuluoedd tlotaf ledled Cymru yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y trefniadau cyfredol. Roedd cyfranwyr yn awgrymu y byddai'r camau gweithredu canlynol yn adeiladu ar arferion da a'n sylfaen dystiolaeth, ac yn helpu i 'roi trefn' ar wasanaethau cyhoeddus er mwyn iddynt gyflawni ar ran y mwyaf difreintiedig:

[38] Briffiau Ymchwil ac Ymarfer (2007) Plant a Theuluoedd Rhif 11. http://www.uea.ac.uk/swk/MRC_web/public_html/qpr/Quality%20protects%20research%20briefing%20No%2011.pdf
[39] ibid.

- Herio'r agwedd 'silo' barhaus mewn gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwasanaethu plant a theuluoedd a anogir gan drefniadau cyllido cyfredol (gydag enghreifftiau prin, cyn belled, o gyllidebau cronedig yng nghyswllt gwasanaethau plant a theuluoedd). Os bydd rhaid, dylai Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio pwerau deddfwriaethol newydd i newid y trefniadau cyllido er mwyn sicrhau agwedd fwy di-dor tuag at gomisiynu a darparu gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer plant a theuluoedd.

- Sefydlu timau aml-asiantaeth i weithredu o fewn y model *On Track*. I ddarparu cefnogaeth i'r teulu, a honno heb stigma, ac wedi ei lleoli yn y gymuned, gan gynnwys gwasanaethau cyffredinol, yn ogystal â gwasanaethau wedi'u targedu'n fwy penodol, ar gyfer plant a theuluoedd mewn perygl. Adeiladu ar gryfderau teuluoedd a chymunedau yn ogystal â mynd i'r afael â gwendidau trwy ddefnyddio agweddau integredig, teulu-cyfan sy'n edrych ar yr ystod o wasanaethau y gellid bod eu hangen ar deulu, yn hytrach na mynd i'r afael ag un broblem neu anhawster mewn gwagle.

- Bydd arweiniad ar y lefel uchaf, gorfforaethol yn hollbwysig i weithredu llwyddiannus, gan wella ansawdd ymarfer ar sail amlddisgyblaeth a gwella canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae gan Fyrddau Gwasanaethau Lleol rôl allweddol i'w chwarae.

- Ni ddylai'r agwedd hon redeg yn gyfochrog â gwasanaethau'r brif ffrwd – yn hytrach dylai'r timau aml-asiantaeth fod yn canolbwyntio ar helpu'r plant a'r teuluoedd mwyaf difreintiedig i gael llwybr at y gwasanaethau y mae ganddynt hawl i'w derbyn. Bydd technegau gwaith maes a strategaethau ymgysylltu yn allweddol i lwyddo.

- O fewn y model hwn, cymryd camau i ddatblygu ymhellach y swyddogaethau 'gwaith maes' a gyflawnir gan ymwelwyr iechyd wrth weithio gyda phlant cyn oed ysgol o grwpiau agored i dlodi plant difrifol a swyddogaeth staff ysgol, gan gynnwys athrawon, gweithwyr cymdeithasol addysgol, nyrsys ysgol, sy'n gweithio gyda phlant oedran ysgol sydd fwyaf 'mewn perygl'.

- Sicrhau pontio rhwydd rhwng cefnogaeth teulu cyn-ysgol ac oedran-ysgol ar gyfer plant sydd 'mewn perygl' gyda'r cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo'n gadarn gan ymwelwyr iechyd i'r ysgolion unwaith y bydd y plant yn dechrau yn yr ysgol.

- Dylid mynd i'r afael â datblygu a hyfforddi'r gweithlu ar sail aml-asiantaeth.

6. Casgliadau

Tlodi plant yw un o'r bygythiadau mwyaf i les pobl Cymru. Er gwaethaf peth lleihad mewn tlodi plant ers diwedd y 90au, mae'r niferoedd sy'n byw dan y trothwy tlodi dal i fod yn weddol bell o'r targedau a bennwyd ar gyfer 2010 a 2020, y naill a'r llall. Mae mynd i'r afael â'r tlodi plant mwyaf difrifol yn hanfodol, os yw'r targedau hyn i'w cyflawni, yn ogystal â dileu'r trallod a'r gwastraff i botensial dynol a ddaw yn sgîl tlodi plant.

Mae rhaglen lywodraethu *Cymru'n Un* wedi adnewyddu'r ymrwymiad i gyflawni'r targedau tlodi plant y cytunwyd yn eu cylch. Rhaid i gyflawni'r targedau hyn barhau'n flaenoriaeth uchel ar gyfer tymor llawn Llywodraeth gyfredol y Cynulliad ac, yn fwy na hynny, dylid ei fabwysiadu gan bob asiantaeth gyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys llywodraeth leol.

Bychan iawn oedd graddfa'r prosiect hwn, ac ond megis dechrau'r broses o glustnodi nodweddion allweddol tlodi plant difrifol yng Nghymru ac archwilio'r opsiynau polisi sydd ar gael i Lywodraeth y Cynulliad ac i eraill a wnaeth. Er hynny, ac hyd yn oed â'r adnoddau prin hyn, yr ydym wedi tanlinellu pwysigrwydd allweddol gwaith cyflogedig i dlodi plant difrifol, a'r cysylltiad ag anabledd rhiant a rhianta unigol.

Yr ydym hefyd wedi nodi rhai agweddau addawol sy'n cynnig agenda ar gyfer gweithredu er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant difrifol. Mae'r rhain yn cylchdroi o amgylch y canlynol:

- Helpu aelwydydd i wneud y mwyaf o'u hincwm drwy gynyddu nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau / credyd treth, symleiddio gweinyddiaeth a lleihau'r baich ariannol ar deuluoedd tlawd.

- Helpu rhieni i ddychwelyd at waith trwy wneud rhaglenni cefnogi yn fwy 'ystyriol o deuluoedd'.

- Buddsoddi sylweddol mewn addysg a dysgu ar gyfer plant difreintiedig.

- Gwneud i wasanaethau cyhoeddus gyflawni ar ran teuluoedd sy'n wynebu anfantais lluosog – trwy blygu rhaglenni a darparu eiriolaeth a chefnogaeth wedi'i theilwra'n well.

Byddai nifer o'r syniadau yn yr adroddiad hwn yn gymorth sylweddol i fynd i'r afael â thlodi plant difrifol yng Nghymru, a gellid eu gweithredu'n gymharol gyflym. Fodd bynnag, yr ydym yn cydnabod bod angen datblygu a phrofi syniadau eraill ymhellach, cyn y gellid eu gweithredu. Yr ydym yn pwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried yr holl gynigion hyn yn ofalus iawn – ac i sefydlu ei 'Huned Polisi Tlodi Plant' hi ei hun i'w gweithredu.

Mae Cymru'n dal i fod ag un o'r cyfraddau uchaf o dlodi plant yn Ewrop, ac fe gloffodd cynnydd o ran lleihau nifer y plant mewn tlodi ddwy flynedd yn ôl. Mae Erthygl 4 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gosod dyletswydd ar lywodraethau i gyflawni hawliau plant 'i eithaf yr adnoddau sydd ar

gael iddynt'. Os yw tlodi plant yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, rhaid iddi ddefnyddio mwy o'i hadnoddau mewnol hi ei hun yn y gwaith o benderfynu ynglŷn â'r ffordd orau o ddefnyddio ei dyraniad o £14 biliwn i ddileu tlodi plant yng Nghymru. Wrth i'r dyddiad targed ar gyfer haneru tlodi plant ddynesu, mae angen rhai ymrwymiadau beiddgar a radical os yw bywydau plant yn y tlodi mwyaf difrifol i gael eu gweddnewid. Yn ogystal â'r syniadau mwy manwl a nodir yn adrannau perthnasol yr adroddiad, daeth rhai targedau o bwys posibl i'r wyneb wrth baratoi'r adroddiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Darparu cymorth i ganfod gwaith i unrhyw riant sydd ei eisiau – beth bynnag y bo eu statws budd-dal neu am ba hyd bynnag y buont heb waith.

- Sefydlu gwarant incwm teulu, wedi ei bennu ar y trothwy tlodi incwm difrifol, a datgan na ddylai incwm unrhyw deulu syrthio oddi tano, boed hwy'n gweithio neu ddim yn gweithio.

- Darparu gofal plant o'r ansawdd gorau, yn rhad ac am ddim, ar gyfer pob plentyn y mae ei rieni ei eisiau.

- Sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg sydd wirioneddol am ddim.

- Sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn gadael yr ysgol gynradd heb allu darllen nac ysgrifennu.

- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a rhieni yr effeithir arnynt yn cael eu cynnwys ac yn cyfrannu'n weithredol yn y gwaith o ddylunio, gweithredu a gwerthuso atebion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant.

Atodiad 1: Statws Tlodi Plant Difrifol y DU yn ôl nodweddion teuluol - crynodeb

Mae pob colofn yn Nhabl 3 yn dangos canran y plant nad ydynt mewn tlodi, sydd mewn tlodi safonol a'r rhai sydd mewn tlodi difrifol, yn eu tro, yn ôl nodweddion yr aelwyd lle maent yn byw.

Felly, o edych ar y rhes gyntaf – rhieni heb waith – mae 5.3 y cant o blant nad ydynt yn dlawd yn byw mewn aelwydydd gyda rhiant/rhieni heb waith, mae 42.1 y cant o blant sy'n byw mewn tlodi safonol yn byw mewn aelwydydd gyda rhiant/rhieni heb waith, ac mae 62.3 y cant o blant mewn tlodi difrifol yn byw mewn aelwydydd gyda rhiant/rhieni heb waith. Nid yw cyfanswm y colofnau yn cyrraedd 100% oherwydd bod nifer o blant yn byw mewn aelwydydd gyda mwy nag un o'r nodweddion hyn.

Noder. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw gostau gofal plant ffurfiol.

Tabl 3: Canran y plant mewn gwahanol fathau o dlodi yn ôl nodweddion yr aelwyd

Nodwedd	**Statws Tlodi Plant**			**Yr holl blant**
	Canran yr holl blant ddim mewn tlodi	**Canran yr holl blant mewn tlodi sylfaenol**	**Canran yr holl blant mewn tlodi difrifol**	
Rhiant/rhieni heb waith	5.3	42.1	62.3	19.0
Unig riant	14.9	43.8	47.9	24.4
Oedolyn anabl yn bresennol	18.0	29.3	32.7	21.9
Dim cymhwyster gan y fam	10.8	31.4	44.3	18.6
Pedwar neu ragor o blant	6.3	18.7	20.9	10.4
Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig	4.4	7.9	14.5	6.1

Ffynhonnell: Magadi, M. a Middleton, S. (2007) *Severe Child Poverty in the UK,* Llundain: Achub y Plant.

Atodiad 2 Y berthynas rhwng budd-daliadau, incwm aelwyd a thlodi plant

Mae'r tabl yn dangos lle fyddai'r system credyd treth a budd-daliadau'n gadael yr amrywiol fathau o aelwyd/teulu a restrir yn Nhabl 3 yn Atodiad 1. Yr ydym yn tybio bod yr aelwydydd yn denantiaid, ac felly'n derbyn y Budd-dal Tai pan fo hynny'n berthnasol. Mae'r holl ffigurau ar ôl tynnu costau tai.

Tabl 2: effeithiau'r system credyd treth a budd-daliadau ar fathau dethol o aelwyd/teulu yn 205/06

Math o aelwyd	Yn gweithio?	Incwm Wythnosol	Disgwyl iddynt fod mewn tlodi?
Oedolyn sengl, un plentyn 8 oed	Na	£121 mewn budd-daliadau	Mewn tlodi ond nid mewn tlodi difrifol
	16 awr yr wythnos ar isafswm cyfog	£163 mewn tâl a chredydau treth	Ddim mewn tlodi
Oedolyn sengl, 2 blentyn 8 ac 14 oed	Na	£169 mewn budd-daliadau	Mewn tlodi difrifol
	16 awr yr wythnos ar isafswm cyfog	£207 mewn tâl a chredydau treth	Mewn tlodi ond nid mewn tlodi difrifol
Cwpl, un plentyn 8 oed	Na	£152 mewn budd-daliadau	Mewn tlodi difrifol
	16 awr yr wythnos, y ddau ar isafswm cyfog	£228 mewn tâl a chredydau treth	Ddim mewn tlodi
Cwpl, 2 blentyn dan 14	Na	£200 mewn budd-daliadau	Mewn tlodi difrifol
	16 awr yr wythnos, y ddau ar isafswm cyfog	£254 mewn tâl a chredydau treth	Mewn tlodi ond nid mewn tlodi difrifol
Cwpl, 2 blentyn 8 ac 14 oed	Na	£200 mewn budd-daliadau	Mewn tlodi difrifol
	16 awr yr wythnos, y ddau ar isafswm cyfog	£254 mewn tâl a chredydau treth	Mewn tlodi ond nid mewn tlodi difrifol

Mae'r tabl yn dweud nifer o bethau wrthym:

- Bydd unig rieni heb waith, sy'n cael eu rhent wedi ei dalu â Budd-dal Tai, mewn tlodi difrifol os oes ganddynt ddau o blant ac ar drothwy tlodi difrifol os mai dim ond un plentyn sydd ganddynt.

- I’r gwrthwyneb, bydd cyplau heb waith sydd â’u rhent yn cael ei dalu gan Fudd-dal Tai mewn tlodi difrifol, faint bynnag o blant sydd ganddyn nhw.

- Ni fydd unrhyw unig riant sy’n gweithio 16 awr yr wythnos neu ragor, hyd yn oed ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, mewn tlodi o gwbl os oes ganddynt un plentyn ond byddant mewn tlodi (fymryn) os oes ganddynt ddau.

- Mae aelwydydd cwpl lle mae’r ddau yn gweithio 16 awr yr wythnos am isafswm cyflog mewn tlodi, ond nid mewn tlodi difrifol.

- Ym mhob achos, mae teuluoedd â dau o blant, lle mae un yn 14 oed neu drosodd, yn fwy tebygol o fod mewn tlodi. Mae hyn yn dilyn proses cyfwertholi, lle bydd plentyn 14 oed yn gofyn am gymaint o adnoddau ag oedolyn ychwanegol a dwywaith yn fwy na phlentyn iau.

- Pe bai unrhyw un o’r aelwydydd hyn yn talu morgais yn hytrach na rhent, gydag ad-daliadau morgais rhywbeth yn debyg i gyfartaledd rhent, byddent mewn sefyllfa lawer waeth na’r hyn y mae’r tabl yn ei awgrymu.